

Cynllun Eryri

*Asesiad Amgylcheddol Strategol a Gwerthusiad Cynaliadwyedd ar gyfer
Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ("Cynllun Eryri")*

Cyfrol 1 - Adroddiad GC

Ionawr 2020

Tabl Cynnwys

1.	Cyflwyniad a Chefndir	4
1.1	Cefndir	4
1.2	Gwerthusiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol	4
1.3	Canllawiau GC / AAS	5
1.4	Pwrrpasau'r Parc Cenedlaethol	5
1.5	Pwrrpas Cynllun Eryri	5
1.6	Pwrrpasau a strwythur yr Adroddiad GC	6
	<i>Tabl 1: Strwythur Adrodd y GC</i>	8
1.7	Egwyddor Sandford	8
1.8	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)	8
2.	Y Prosesau GC	10
2.1	Y Dull Gweithredu a Fabwysiadwyd	10
2.2	Cynnydd y GC hyd yn hyn	10
2.3	Ymgynghori a Chysylltiadau / Ymglymiad	13
3.	Adolygiad o Bolisiâu a Rhaglenni Cynlluniau Perthnasol	14
3.1	Cyflwyniad	14
3.2	Gofynion Cyfarwyddeb AAS	14
3.3	Canfyddiadau Allweddol yr Adolygiad	15
4.	Sylfaen Tystiolaeth a Materion Amgylcheddol a Chynaliadwyedd Cyfredol	17
4.1	Gofynion Cyfarwyddeb AAS	17
4.2	Pwrrpas Coladu Data Gwaelodlin	17
4.3	Methodoleg ar gyfer Casglu'r Data Gwaelodlin	18
4.4	Cyfngiadau Data	18
4.5	Gwaelodlin Cynaliadwyedd a Materion a Chyfleoedd Allweddol	19
4.6	Y Senario 'Busnes fel Arfer'	31
5.	Methodoleg Asesu	33
5.1	Gofynion y Gyfarwyddeb AAS	33
5.2	Amcanion, Cwestiynau Canllaw, Dangosyddion a Thargedau	33
5.3	Y berthynas rhwng y Gyfarwyddeb AAS a Fframwaith y GC	42
	<i>Tabl 7: Y berthynas rhwng Amcanion y GC a Phynciau Cyfarwyddeb yr AAS</i>	42
5.4	Cydnawsedd rhwng Amcanion y GC	42
5.5	Asesiad o Ganlyniadau Cynllun Eryri	43
	• Y Weledigaeth y cytunwyd arni ar gyfer Dyfodol Eryri	43
	• Canlyniadau a Pholisïau a Ffeifrir	43

5.5.1	Asesiad o'r Weledigaeth ar gyfer Dyfodol Eryri.....	43
5.5.2	Asesiad o'r Canlyniadau a'r Polisiâu	44
5.6	Effeithiau Cronnus / Synergaid	45
6.	Datblygu ac Asesu Opsiynau Strategol	47
6.1	Gofynion y Gyfarwydddeb AAS	47
6.3	Cydymffurfio â Chyfarwydddeb a Rheoliadau'r AAS.....	49
7.	Perfformiad Cynaliadwyedd y Weledigaeth a'r Canlyniadau	51
7.1	Y Weledigaeth	51
7.1.1	Cyflwyniad.....	51
7.1.2	Argymhellion o'r Ymgynghoriad Cychwynnol.....	51
7.1.3	Y Weledigaeth ar gyfer Eryri	52
7.1.4	Sylwebaeth Cynaliadwyedd ar Weledigaeth Cynllun Eryri.....	52
7.1.5	Sut mae'r GC wedi dylanwadu ar y Weledigaeth	53
7.2	Gwerthusiad Cynaliadwyedd o'r Canlyniadau	53
7.2.1	Cyflwyniad.....	53
7.2.2.	Crynodeb o'r Matrics Cydnawsedd.....	54
7.2.3.	Crynodeb o'r asesiad llawn o'r Deilliannau / Canlyniadau	54
7.3	Effeithiau Cronnus a Synergaid	58
7.3.1	Cyflwyniad.....	58
7.3.2	Asesu Effeithiau Cronnus a Synergaid	59
8.	Y Fframwaith Monitro.....	61
8.1	Cyflwyniad.....	61
8.2	Gofynion y Gyfarwydddeb AAS.....	61
8.3	Y Dull Gweithredu / Ymagwedd.....	61
8.4	Y Fframwaith Monitro Arfaethedig.....	62
8.5	Rheolaeth a Chyfrifoldebau	78
9.	Y Camau Nesaf	79

1. Cyflwyniad a Chefndir

1.1 Cefndir

Parc Cenedlaethol Eryri yw Parc Cenedlaethol mwyaf a'r un mwyaf hirsefydledig yng Nghymru, a ddynodwyd ym 1951. Mae'n cynnwys ardal o 213,400 hectar ac mae ganddo boblogaeth breswyl o tua 25,700, y mae dros 58% ohonynt yn siaradwyr Cymraeg.

Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn cynnwys cyfoeth o wahanol dirweddau a threfweddau, yn ogystal ag arfordir sy'n 60km. Mae Eryri hefyd yn ymgorffori ardaloedd mawr o goetiroedd (collddail a di-gollddail), a dros 96,000 hectar o rostir. Mae tirweddau amrywiol Eryri yn mynnu bod y dull o'i reoli a'i fonitro ar sail 'ardal i ardal', yn hytrach na thrwy gyfrwng dull gweithredu neu ymagwedd o 'bod un dull yn addas i bawb'. Mae economi'r ardal yn seiliedig ar amaethyddiaeth (sydd mewn sawl ffordd wedi dylanwadu ar ffurf y dirwedd bresennol) a hefyd twristiaeth. Mae Eryri hefyd yn elwa o ymdeimlad cryf o hunaniaeth gymunedol.

Mae APCE yn awdurdod cynllunio pwrpas sengl gyda 18 o Aelodau etholedig gan yr Awdurdodau cyfansoddol (Cyngor Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) a Llywodraeth Cymru (LIC).

Gyda phartneriaid, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) wedi paratoi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ("Cynllun Eryri") ar gyfer Parc Cenedlaethol Eryri (y cyfeirir ato wedi hyn fel y Parc Cenedlaethol). Fel rhan o'r broses, mae Gwerthusiad Cynaliadwyedd (GC) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) yn cael eu cynnal ar y cyd. Defnyddir y term GC i gyfeirio at yr GC / AAS cyfunedig yng ngweddill yr adroddiad hwn. Mae'r adroddiad hwn yn dogfennu proses y GC ar gyfer Cynllun Eryri yn unol â Chyfarwyddeb a Rheoliadau AAS¹.

Paratowyd Adroddiad Cwmpasu GC ar gyfer GC o Gynllun Eryri, a chafodd ei ryddhau ar gyfer ymgynghoriad statudol ym mis Gorffennaf 2018 ochr yn ochr â'r Adroddiad Ymgynghori ar gyfer Cynllun Eryri.

Ar ôl derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad, paratowyd fersiwn drafft o Gynllun Eryri ac fe'i haseswyd fel rhan o'r Broses GC. Mae'r Adroddiad GC hwn yn dogfennu'r asesiad hwn.

1.2 Gwerthusiad Cynaliadwyedd ac Asesiad Amgylcheddol Strategol

Mae Gwerthusiad Cynaliadwyedd (GC) yn broses ar gyfer asesu effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cynllun a'i nod yw sicrhau bod datblygu cynaliadwy wrth wraidd y broses o wneud cynllun. Mae'n ofniad cyfreithiol bod Cynllun Eryri yn ddarostyngedig i Werthusiad Cynaliadwyedd.

¹ Troswyd y Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol (Cyfarwyddeb 2001/42 / EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar asesu effeithiau rhai cynlluniau a rhaglenni ar yr amgylchedd) yn gyfraith ddomestig gan Reoliadau Asesiad Amgylcheddol Cynlluniau a Rhaglenni 2004 ("Rheoliadau'r AAS").

Mae'r egwyddor o sicrhau gwell ansawdd bywyd i bawb, nawr ac yn y dyfodol, wrth wraidd datblygu cynaliadwy. Mae GC yn offeryn hanfodol ar gyfer sicrhau bod egwyddorion datblygu cynaliadwy yn gynhenid wrth baratoi Cynllun Eryri a'i fod yn cydymffurfio yn fras ac yn cyfrannu at ganllawiau cynllunio perthnasol. Nod trosfwaol y broses yw sicrhau gwell penderfyniadau a chynllunio.

Mae Cynllun Eryri wedi'i ddrafftio yng ngwir ysbryd partneriaeth. Ar bob cam o broses llunio'r Cynllun, mae ymgynghori a chydgynhyrchu wedi llywio'r amcanion cyffredinol a'r cynnwys ymarferol. Mae'r broses dryloyw hon â ffocws wedi golygu bod y broses o wneud penderfyniadau yn seiliedig ar farn a phrofiad cyfunol ystod o sefydliadau ar draws y sefydliadau statudol, busnesau, cyrff gwirfoddol a chymunedau lleol dros raglen waith ailadroddol barhaus. Mae datblygu cynaliadwy wedi bod wrth wraidd y trafodaethau a'r penderfyniadau ar sut y dylai'r Cynllun terfynol edrych o'r cychwyn cyntaf.

1.3 Canllawiau GC / AAS

Ymgynghorwyd â'r dogfennau canllaw a ganlyn trwy gydol y broses GC:

- ODPM et al (2005) A Practical Guide to the Strategic Environmental Assessment Directive
- CCGC (2007) Canllawiau Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol

Darparwyd arweiniad ymgynghori i gynhyrchu'r Adroddiad Cwmpasu cychwynnol. Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sydd wedi gwneud y prif waith gwerthuso.

1.4 Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol

Yn y Parc Cenedlaethol mae'n hanfodol sicrhau bod pob polisi'n canolbwyntio ar ac yn blaenoriaethu pwrpasau a dyletswyddau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol fel y nodir yn Neddf yr Amgylchedd 1995.

Pwrpasau'r Parc Cenedlaethol yw:

- Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol.
- Hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau (y Parc)

Wrth arddel y pwrpasau hyn, mae'n ddyletswydd ar yr Awdurdod i:

- Geisio meithrin lles cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol.

Felly bydd Cynllun Eryri yn cael effaith ar amgylchedd y Parc Cenedlaethol ac ar les cymdeithasol ac economaidd cymunedau lleol. Mae angen i'r cynllun gyflawni strategaeth a pholisi sy'n adlewyrchu anghenion y gymuned leol yng nghyd-destun y statws arbennig a ddaw yn sgil dynodiad y Parc Cenedlaethol.

1.5 Pwrpas Cynllun Eryri

O dan Adran 66 (1) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 mae'n ofynnol i bob Awdurdod Parc Cenedlaethol fynd ati i baratoi a chyhoeddi Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol (CRhPC). Ar ôl

ei fabwysiadu mae'n ffurfio'r prif gyfrwng ar gyfer sicrhau bod darpariaethau statudol Deddf yr Amgylchedd yn cael eu bodloni. Mae Cynllun Eryri yn gynllun eang sy'n arwain rheolaeth pob agwedd ar Barc Cenedlaethol Eryri.

Hon fydd y ddogfen bolisi bwysicaf ar gyfer y Parc Cenedlaethol a bydd yn nodi'r egwyddorion arweiniol, gweledigaeth, nodau a pholisïau tymor hir ar gyfer rheoli pob un o wahanol agweddau'r Parc Cenedlaethol.

Mae'r Cynllun yn dwyn ynghyd y rhai sy'n siapio ac yn dylanwadu ar y Parc Cenedlaethol y tu ôl i weledigaeth gyffredin ar gyfer y dyfodol. Mae'r cynllun yn canolbwyntio ar ymdrechion cydgysylltiedig i sicrhau bod y Parc Cenedlaethol, trwy ddatblygu cynaliadwy, yn parhau i haeddu ei statws o gael ei amddiffyn, trwy warchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol yr ardal a sbarduno cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau'r Rhinweddau Arbennig; ac ar yr un pryd meithrin lles economaidd a chymdeithasol y cymunedau lleol yn y Parc Cenedlaethol.

Mae'n rhaid i Gynllun Eryri fod yn destun GC yn unol â gofynion y Gyfarwydddeb AAS² gan ei fod yn gynllun sy'n ddarostyngedig i'w fabwysiadu gan Awdurdod ac mae'n ofynnol trwy gyfrwng gweithdrefn deddfwriaethol.

1.6 Pwrrpasau a strwythur yr Adroddiad GC

Mae Adroddiad yr GC yn darparu crynodeb o'r broses GC, ac mae hefyd yn dogfennu canfyddiadau ac argymhellion yr asesiad hwn. Ymgynghorir â'r Adroddiad GC hwn ochr yn ochr â fersiwn ddrafft terfynol o Gynllun Eryri. Bydd yn cael ei roi i bob ymgynghorydd statudol ac ar gael i'r cyhoedd ei weld. Dylid darllen y Drafft o Gynllun Eryri ar y cyd gyda'r Adroddiad GC.

Mae Error! Reference source not found. yn amlinellu cynnwys a strwythur yr Adroddiad GC. Mae Cyfrol 1 o'r Adroddiad GC hwn yn cynnwys y prif destun ac yn cynnwys crynodeb o ganlyniadau'r asesiad. Cyflwynir yr atodiadau i'r adroddiad hwn yng Nghyfrol 2 ar wahân.

Adran o Adroddiad y GC	Cynnwys Amlinellol
Crynodeb Annhechnegol (Dogfen ar wahân)	Crynodeb syml o'r broses GC ac Adroddiad y GC (gofyniad deddfwriaethol)
Talfyriadau	Talfyriadau a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn
1: Cyflwyniad a Cefndir	Mae'n darparu cefndir i'r GC a Chynllun Eryri ac yn cynnwys pwrrpas a strwythur yr Adroddiad GC
2: Y Broses GC	Mae hwn yn amlinellu elfennau allweddol y broses GC.

² Cyfarwydddeb 2001/42 / EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 27 Mehefin 2001 ar yasesiad o effeithiau rhai cynlluniau a rhaglenni ar yr amgylchedd

	Mae'n darparu crynodeb o'r broses GC a gynhaliwyd hyd yn hyn. Mae'n darparu manylion ar sut i roi sylwadau ar yr Adroddiad GC hwn.
3: Adolygiad o Gynlluniau, Polisiâu a Rhaglenni Perthnasol	Mae hyn yn gosod y cyd-destun ar gyfer Cynllun Eryri o fewn hierarchaeth yr amcanion cynaliadwyedd rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol. Mae'n nodi canfyddiadau allweddol yr adolygiad o Gynlluniau, Polisiâu a Rhaglenni (CPRh). Cyflwynir yr adolygiad llawn yn Atodiad B o Gyfrol 2.
4: Sylfaen Tystiolaeth a Materion Cynaliadwyedd Cyfredol	Mae hyn yn nodweddu'r llinell sylfaen amgylcheddol a chynaliadwyedd ar gyfer y Parc Cenedlaethol ac yn tynnu sylw at y materion a'r cyfleoedd cynaliadwyedd allweddol.
5: Methodoleg Asesu	Mae hyn yn amlinellu sut mae cydrannau Cynllun Eryri wedi'u hasesu trwy'r broses GC.
6: Datblygu ac Asesu Opsiynau Strategol	Mae hyn yn cynnwys adolygu'r broses o ddatblygu Canlyniadau / Deilliannau craidd Cynllun Eryri a'r cyfyngiadau.
7: Perfformiad Cynaliadwyedd y Weledigaeth a'r Canlyniadau	Mae hyn yn darparu asesiad o Weledigaeth a Chanlyniadau / Deilliannau Cynllun Eryri yn erbyn Fframwaith Amcanion yr GC, ac o brif effeithiau cynaliadwyedd cronus a synergaid Cynllun Eryri.
8: Y Fframwaith Monitro	Mae hwn yn amlinellu fframwaith ar gyfer monitro effeithiau arwyddocaol gweithredu Cynllun Eryri yn y dyfodol.
9. Y Camau Nesaf	Mae hwn yn amlinellu'r camau nesaf yn natblygiad Cynllun Eryri a'i AAS / GC
Cyfrol 2: Atodiad A: Adroddiadau Cwmpasu Ymatebion Ymgynghori	Mae hwn yn cynnwys copiâu o ymatebion yr ymgynghoriad i'r Adroddiad Cwmpasu.
Atodiad B: Adolygiad o Gynlluniau, Polisiâu a Rhaglenni	Adolygiad o gynlluniau, polisiâu a rhaglenni perthnasol eraill sydd wedi dylanwadu ar broses y GC a datblygiad Cynllun Eryri.

Atodiad C: Cydnawsedd Amcan y GC	Matrics cydnawsedd o Amcanion y GC i nodi unrhyw feysydd o anghysondeb posibl rhwng yr amcanion.
Atodiad D: Cydnawsedd Canlyniadau / Deilliannau Cynllun Eryri ac Amcanion y GC	Matrics cydnawsedd o Amcanion y GC a Chanlyniadau / Deilliannau Cynllun Eryri i nodi unrhyw feysydd anghysondeb neu wrthdaro posibl.
Atodiad E: Asesu'r Canlyniadau	Matricsau yn asesu Canlyniadau / Deilliannau Tymor Hir Cynllun Eryri yn erbyn y Fframwaith GC
Atodiad F: Asesiad o Effeithiau Cronnus	Asesiad o'r effeithiau posibl a allai gael eu gwireddu o ganlyniad i weithredu'r strategaethau a ffefrir yn ôl pwnc y derbynnydd

Tabl 1: Strwythur Adrodd y GC

1.7 Egwyddor Sandford

Wrth baratoi'r cynllun, gall ardaloedd o wrthdaro anghymodlon godi rhwng pwrpasau'r Parc Cenedlaethol. Mae "Egwyddor Sandford" wedi'i sefydlu sy'n nodi mai pwrpasau cadwraeth fydd drechaf. Crëwyd polisiau cyfredol o fewn y ddealltwriaeth hon, ac mae'r broses GC wedi bod yn ymwybodol ac wedi talu sylw teilwng i'r egwyddor hon.

1.8 Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC)

Mae Cyfarwydddeb 97/62 / EC yr Undeb Ewropeaidd, y "Gyfarwydddeb Cynefinoedd", yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw gynllun neu raglen sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar safle Natura 2000 nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â rheoli'r safle ar gyfer cadwraeth natur fod yn ddarostyngedig i Asesiad Priodol.

Mae rhwydwaith Natura 2000 yn cynnwys Ardaloedd Arbennig a Ddiogelir (AADd) a ddosberthir o dan Gyfarwydddeb Adar y CE 1979 ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a ddynodwyd o dan y Gyfarwydddeb Cynefinoedd. Fodd bynnag, fel mater o bolisi, mae LIC yn disgwyl i awdurdodau drin pob safle Ramsar, ac AADd posibl yng Nghymru fel pe baent yn safleoedd Ewropeaidd at ddibenion penderfynu a fydd cynigion datblygu yn effeithio'n sylweddol arnynt.

Ymgwymerir â ARhC ar wahân ar gyfer Cynllun Eryri a bydd yn rhedeg ochr yn ochr â'r broses GC. Cynhyrchwyd adroddiad ARhC ar gyfer y cynllun a bydd yn wahanol i Adroddiad yr AC. Mae'r canllawiau'n glir iawn ynghylch yr angen i gadw'r prosesau yn wahaniaethol, er mae'n

anochel bod gorgyffwrdd yn digwydd rhyngddynt. Nod trosfwaol yr ARhC fydd penderfynu, yng ngoleuni amcanion cadwraeth safle a nodweddion cymwys, a fyddai'r cynllun, naill ai ar ei ben ei hun a / neu yn gyfunol â chynlluniau eraill, yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle dynodedig.

2. Y Prosesau GC

2.1 Y Dull Gweithredu a Fabwysiadwyd

Trwy gyfuno prosesau GC ac AAS, mae'r AC hwn yn ystyried materion amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd a'u rhyngweithiad, a thrwy hynny sicrhau bod egwyddorion datblygu cynaliadwy yn cael eu hintegreiddio i ddatblygiad CRhPC.

Bwriad y broses GC yw bod yn broses ailadroddol sy'n cymryd golwg tymor hir ar sut mae disgwyl i Barc Cenedlaethol Eryri ddatblygu o ran agweddau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Yn ogystal, mae'n darparu mecanwaith i sicrhau bod amcanion cynaliadwyedd sy'n adlewyrchu pryderon lleol, rhanbarthol a byd-eang yn dylanwadu ar ddatblygiad Cynllun Eryri.


Mae Cyfarwydddeb AAS yn gosod y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y broses AAS ac fe'i trawsosodwyd yng nghyfraith y DU yn Rheoliadau Asesiad Amgylcheddol Cynlluniau a Rhaglenni 2004, Offeryn Statudol 2004 Rhif 1633.

2.2 Cynnydd y GC hyd yn hyn

Cam y GC a Thasg	Yr Elfen o'r Broses GC	Mewnbynnau a Phrosesau Allweddol
Cam A: Gosod y cyd-destun a'r amcanion, sefydlu'r llinell sylfaen a phenderfynu ar y cwmpas: A1: Nodi polisiau, cynlluniau, rhaglenni ac amcanion cynaliadwyedd perthnasol eraill A2: Casglu gwybodaeth sylfaenol A3: Nodi materion a phroblemau cynaliadwyedd A4: Datblygu'r Fframwaith GC 5: Ymgynghori ar gwmpas y GC	Cwmpasu	Dechreuodd y broses GC yn gynnar yn 2018 gyda chynhyrchiad yr Adroddiad Cwmpasu ar gyfer yr GC o Gynllun Eryri. Roedd yr Adroddiad Cwmpasu yn cynnwys: - Nodweddiad o'r llinell sylfaen amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yn y Parc Cenedlaethol. - Adolygiad o gynlluniau, rhaglenni a pholisiau perthnasol a allai ddylanwadu ar y GC a datblygiad Cynllun Eryri. - Nodi materion a chyfleoedd cynaliadwyedd allweddol. - Fframwaith y GC, y byddai elfennau Cynllun Eryri yn cael ei asesu yn ei herbyn.
	Fframwaith y GC	Datblygwyd Fframwaith y GC trwy'r cam cwmpasu, ac mae'n gweithredu fel y prif offeryn ar gyfer asesu cynaliadwyedd Cynllun Eryri. Mae'n cynnwys cyfres o Amcanion GC a chwestiynau canllaw, sy'n mynd i'r afael â chroestoriad llawn o faterion cynaliadwyedd, gan gwmpasu nodau amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol ar gyfer y Parc Cenedlaethol. Cyflwynir Amcanion y GC a'r cwestiynau canllaw yn adran 5.2
	Ymgynghoriad Cwmpasu	Cyhoeddwyd yr adroddiad Cwmpasu ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ochr yn ochr â'r Ddogfen Ymgynghori ar gyfer Cynllun Eryri ym mis Gorffennaf 2018.

		Cyhoeddwyd yr adroddiad cwmpasu ar gyfer y ddau ymgynghorydd statudol - CNC a Cadw. Ni dderbyniwyd unrhyw ymatebion wrth ymgynghori ar yr Adroddiad Cwmpasu'r GC.
Cam B: Datblygu a mireinio opsiynau ac asesu effeithiau B1: Profi amcanion y cynllun yn erbyn y Fframwaith GC B2: Datblygu opsiynau'r cynllun B3: Rhagfynegi effeithiau'r cynllun drafft B4: Gwerthuso effeithiau'r cynllun drafft B5: Ystyried ffyrdd o liniaru effeithiau andwyol a chynyddu effeithiau buddiol i'r eithaf B6: Cynnig mesurau i fonitro effeithiau sylweddol gweithredu'r cynllun.	Adroddiad GC ac ymgynghori	Mae'r Adroddiad GC hwn yn dogfennu'r broses GC gyfan. Cyhoeddir yr Adroddiad ar gyfer ymgynghori arno ochr yn ochr â fersiwn ddrafft o Gynllun Eryri, er mwyn cael sylwadau gan yr holl ymgynghoreion a rhanddeiliaid statudol arno. Mae Cynllun Eryri wedi cael ei gyd-gynhyrchu gan Bartneriaeth cyrff. Mae'r Cynllun drafft wedi deillio o'r broses gadarn hon sydd, yn greiddiol, wedi mabwysiadu ac ymgorffori elfennau perthnasol datblygu cynaliadwy - Amlinellir y manylion ym Mhennod 6 Wedi'i baratoi ochr yn ochr â'r Cynllun drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Chwefror - Mawrth 2020. Mae'r cam ymgynghori cyhoeddus yn rhedeg rhwng 3 Chwefror - 13 Mawrth 2020.
Cam C: Paratoi Adroddiadau'r GC C1: Paratoi Adroddiadau'r GC		
Cam D: Ymgynghori ar y Cynllun Drafft a'r Adroddiad Cynaliadwyedd D1: Cyfranogiad y cyhoedd ar yr opsiynau a ffefrir yn y cynllun ac Adroddiad y GC D2: Asesu newidiadau sylweddol D3: Gwneud penderfyniadau a darparu gwybodaeth		
Cam E: Monitro		Mae'r Adroddiad GC yn cynnwys fframwaith monitro y dylid ei defnyddio i fonitro effeithiau cynaliadwyedd sylweddol gweithredu Cynllun Eryri. Bydd monitro'n cychwyn pan fydd Cynllun Eryri yn cael ei fabwysiadu'n ffurfiol.

Tabl 2: Cynnydd y GC hyd yn hyn



Ffigur 1: Crynodeb o'r broses ar gyfer creu Cynllun Eryri

2.3 Ymgynghori a Chysylltiadau / Ymglymiad

Cynhyrchwyd Cynllun Eryri yn gyfan gwbl trwy broses o ymgynghori parhaus a chynnwys rhanddeiliaid. Felly ni fyddai'r Cynllun yn bodoli ar ei ffurf bresennol oni bai am fewnbwn cymunedau a sefydliadau sydd â diddordeb yn yr ardal. Mae Ffigur 3 (uchod) yn dangos graddfa'r broses hon. Mae'r Cynllun drafft yn ganlyniad i gyd-gynhyrchu parhaus agos a wnaed gydag ystod o randdeiliaid yn yr ardal.

Mae'r Adroddiad GC yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori ochr yn ochr â'r fersiwn drafft o Gynllun Eryri. Cyfeiriwch unrhyw ymatebion ymgynghori at Angela Jones, Rheolwr Partneriaethau yn y cyfeiriad isod:

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol, Penrhyndeudraeth, Gwynedd. LL48 6LF.

Mae'r dogfennau ar gael i'w gweld ar wefan yr Awdurdod ar:
www.eryri.llyw.cymru/cynlluneryri ac mae copïau papur ar gael ar gais.

3. Adolygiad o Bolisïau a Rhaglenni Cynlluniau Perthnasol

3.1 Cyflwyniad

Ymgwymerwyd ag adolygiad o gynlluniau, polisïau a rhaglenni eraill (CPRh) a allai effeithio ar y GC o Gynllun Eryri yn 2018 er mwyn nodi'r berthynas rhyngddynt a Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol. Roedd hyn yn cynnwys:

Nodi unrhyw amcanion, dangosyddion neu dargedau cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol allanol y dylid eu hadlewyrchu ym mhroses y GC

Nodi unrhyw ddata sylfaenol y dylid ei gynnwys yn y GC

Nodi unrhyw ffactorau allanol a allai ddylanwadu ar baratoi'r cynllun

Nodi unrhyw nodau neu amcanion allanol a fyddai'n cyfrannu'n gadarnhaol at y cynllun Penderfynu a oes unrhyw wrthdaro neu heriau posibl clir rhwng CPRh eraill a nodwyd neu amcanion cynaliadwyedd Chynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol sy'n dod i'r amlwg

Mae egwyddorion allweddol y CPRh hyn wedi cael eu dwyn ymlaen i ddylanwadu'n gadarnhaol ar gyfeiriad Cynllun Eryri. Yn ogystal, helpodd yr adolygiad o'r CPRh i gyfarwyddo paratoad y Fframwaith GC.

Mae CPRh perthnasol a sefydlwyd yn ystod ac ers 2018 hefyd wedi cael eu cynnwys yn nrafft terfynol y Cynllun yn barod ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus, er enghraifft *Gwerthfawr a Chydnerth: Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol eithriadol a Pharciau Cenedlaethol (2018)*; y Datganiad Argyfwng Hinsawdd ym mis Ebrill 2019; ynghyd ag amryw ymgynghoriadau gweithredol megis *Ffermio Cynaliadwy ac Ein Tir (2019)*; *Cynllun Aer Glân ar gyfer Cymru: Aer Iach, Cymru Iach (2019)*.

Cydnabyddir hefyd, ar adeg o ansicrwydd gwleidyddol mawr, nad yw'n eglur a fydd effaith tynnu'r DU o'r Undeb Ewropeaidd yn cael effaith sylweddol ar bolisi'r llywodraeth a blaenoriaethau cyllido'r llywodraeth.

3.2 Gofynion Cyfarwyddeb AAS

Mae'r Gyfarwyddeb GC yn nodi gweithgareddau y mae'n rhaid eu cyflawni fel rhan o'r GC. Cyflwynir y gweithgareddau sy'n berthnasol i'r adolygiad o'r CPRh ym **Mlwch 1**:

Blwch 1: Gofynion Cyfarwydddeb AAS sy'n Gymwys i CPRh

Mae'r Gyfarwydddeb AAS yn mynnu bod y GC yn cynnwys:

'the relationship (of the plan or programme) with other relevant plans and programmes' (Annex1(a))

'the environmental protection objectives, established at international (European) Community or national level, which are relevant to the plan or programme...and the way those objectives and any environmental considerations have been taken into account during its preparation' (Annex 1, (e))

3.3 Canfyddiadau Allweddol yr Adolygiad

Mae'r adolygiad o'r CPRh yn cael ei yrru gan gwmpas daearyddol y cynllun sy'n cael ei asesu a'i safle yn yr hierarchaeth llunio'r cynllun, h.y. a yw'n gynllun cenedlaethol, rhanbarthol neu leol. Felly, mae'r adolygiad o CPRh wedi cynnwys rhoi ystyriaeth i gynlluniau ar lefel ryngwladol, genedlaethol, ranbarthol a lleol. Cyflwynir yr adolygiad CPRh llawn yn **Atodiad B o Gyfrol 2**. Rhestrir rhai o'r themâu / nodau allweddol sy'n codi o'r adolygiad isod:

- Diogelu a gwella bioamrywiaeth a'r amgylchedd naturiol gan gynnwys y dirwedd (a'r drefwedd).
- Cydnabod uchafiaeth amcanion cadwraeth natur, a nodi'n glir y dynodiadau hyn wrth osod amcanion y GC a diffinio opsiynau
- Mae bioamrywiaeth yn cael ei gynnal a'i wella, tra bod cydnerthedd ecosystemau'n cynyddu.
- Diogelu a gwella adnoddau treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd adeiledig
- Lleihau llygredd a sicrhau arferion rheoli tir cynaliadwy.
- Diogelu a gwella adnoddau dŵr.
- Cydnabod her newid yn yr hinsawdd a mewnbllannu camau addasol priodol i fynd i'r afael ag ef.
- Cydnabod yr angen i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a hyrwyddo ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni.
- Cyflawni effeithlonrwydd adnoddau a datblygu patrymau cynhyrchu a defnyddio mwy cynaliadwy.
- Defnydd doeth o adnoddau naturiol.
- Hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy ac adlewyrchu awydd Llywodraeth Cymru am dwf yn y sector twristiaeth o ansawdd uchel
- Annog defnyddio mentrau dylunio cynaliadwy (trwy'r CDLI).
- Hyrwyddo rheoli gwastraff yn sensitif a chynaliadwy.
- Cydnabod pwysigrwydd mannau agored, chwaraeon a hamdden a'r cyfraniad y maent yn ei wneud i wella ansawdd bywyd.
- Cryfhau hunaniaeth genedlaethol Gymreig.

- Gwella hygyrchedd ymwelwyr at ddiwylliant Cymru.
- Angenrheidrwydd i sicrhau bod datblygiad tai newydd yn diwallu anghenion lleol e.e. mewn perthynas â fforddiadwyedd (trwy'r CDLI).
- Hyrwyddo dewisiadau trafndiaeth mwy cynaliadwy (e.e. cyfleusterau trafndiaeth gyhoeddus) a gwell hygyrchedd.
- Darparu gwasanaethau o ansawdd uchel sydd mor hygyrch â phosibl.
- Cyflawni gwelliant cyffredinol yn ansawdd bywyd yr holl breswylwyr.
- Adfywio cymunedau gwledig a bywoliaethau.
- Gwell arallgyfeirio economaidd.
- Mwy o gyfleoedd cyflogaeth.
- Gwell iechyd ymysg y bobl sy'n byw yn y Parc Cenedlaethol.
- Ymestyn democratiaeth leol a gweithredu lleol.
- Ymgynghoriad cyhoeddus a mynediad at wybodaeth sy'n cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau

Mae gan broses y GC rôl allweddol i'w chwarae wrth nodi canlyniadau tebygol a sylweddol gweithredoedd a pholisïau Cynllun Eryri. Mae'n gweithredu fel offeryn ar gyfer cynorthwyo gwneud penderfyniadau i helpu i sefydlu'r rhinweddau cymharol ac felly'r opsiynau mwyaf cynaliadwy i'w datblygu, a hefyd i geisio lliniaru unrhyw ganlyniadau niweidiol. Fel rhan o hyn, mae'r adolygiad o CPRh yn cynorthwyo i brofi'r cynllun sy'n dod i'r amlwg trwy lywio ehangder a ffocws y Fframwaith Cynaliadwyedd.

4. Sylfaen Tystiolaeth a Materion Amgylcheddol a Chynaliadwyedd Cyfredol

4.1 Gofynion Cyfarwydddeb AAS

Blwch 2 mae hwn yn amlinellu'r gofynion deddfwriaethol ar gyfer yr elfen hon o'r broses GC.

Blwch 2: Gofynion Cyfarwydddeb AAS ar gyfer Coladu Data Gwaelodlin

Mae'r Gyfarwydddeb AAS yn mynnu bod yr AAS yn cynnwys:

'relevant aspects of the current state of the environment and the likely evolution thereof without its implementation of the plan or programme' and, 'the environmental characteristics of the areas likely to be significantly affected' (Annex 1(b), (c))

'any existing environmental problems which are relevant to the plan or programme including, in particular, those relating to any areas of a particular environmental importance, such as areas designated pursuant to Directives 79/409/EEC and 92/43/EEC' (Annex 1 (c))

Mae Atodiad 1 o'r Gyfarwydddeb AAS yn benodol iawn yn y pynciau y mae'n rhaid eu hystyried fel rhan o'r AAS. Y pynciau hyn yw: bioamrywiaeth; poblogaeth; iechyd pobl; fflora; ffawna; pridd; dŵr; aer; ffactorau hinsoddol; asedau materol; treftadaeth ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol; tirwedd a'r gydberthynas rhwng y ffactorau uchod. Felly, mae angen i'r broses coladu data sylfaenol gasglu data am y pynciau hyn hefyd. Gan fod hwn hefyd yn GC, dylai'r broses coladu data sylfaenol hefyd sicrhau bod digon o ddata'n cael ei gasglu am faterion cymdeithasol ac economaidd yn y Parc Cenedlaethol, er enghraifft mewn perthynas ag addysg, tai, ysbryd cymunedol a ffyniant a pherfformiad economaidd.

4.2 Pwrpas Coladu Data Gwaelodlin

Mae nodweddu'r gwaelodin, materion a chyd-destun amgylcheddol a chynaliadwyedd yn weithgaredd pwysig wrth ddiffinio'r Fframwaith GC. Mae'n cynnwys yr elfennau a ganlyn:

- Nodweddu cyflwr presennol amgylchedd y Parc Cenedlaethol gan gynnwys agweddau cymdeithasol ac economaidd.
- Defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i nodi problemau a chyfleoedd presennol y dylid eu hystyried yn y GC ac wrth baratoi Cynllun Eryri, trwy ddylanwadu ar ehangder a ffocws y Fframwaith Cynaliadwyedd yn benodol.

4.3 Methodoleg ar gyfer Casglu'r Data Gwaelodlin

Casglwyd y data gwaelodlin ar gyfer yr AAS yn bennaf trwy'r Adroddiad ar Gyflwr y Parc digidol 2016/17 a setiau data eraill a weithredir gan yr Awdurdod a sefydliadau partner. Mae'r Adroddiad ar Gyflwr y Parc digidol yn darparu meincnod ar gyfer monitro ac yn darparu gwybodaeth y gellir ei defnyddio i wella cynlluniau ar gyfer y dyfodol fel Cynllun Eryri. Ar hyn o bryd mae'r Adroddiad digidol ar Gyflwr y Parc yn cynnwys gwybodaeth am:

- Newid yn yr hinsawdd
- Ansawdd dŵr
- Ansawdd pridd a halogiad
- Dyddodiad asid
- Bioamrywiaeth
- Geo-amrywiaeth
- Ardaloedd dynodedig
- Treftadaeth ddiwylliannol
- Hawliau tramwy a mynediad cyhoeddus
- Llonyddwch
- Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r Parc Cenedlaethol
- Traffig a chludiant
- Poblogaeth a strwythur oedran
- Ansawdd bywyd

Diweddarwyd yr Adroddiad ar Gyflwr y Parc fel rhan o'r broses GC i sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â holl bynciau Cyfarwyddeb yr AAS a'i fod yn darparu gwybodaeth am dueddiadau a phatrymau gofodol ledled y Parc Cenedlaethol. Felly, mae'r Adroddiad digidol diwygiedig ar Gyflwr y Parc wedi'i gynhyrchu ac mae'n ffurfio'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr GC.

Gellir gweld data yr Adroddiad ar Gyflwr y Parc ar wefan APCE:

<http://www.snowdonia.gov.wales/looking-after/state-of-the-park>

Yn ogystal â'r fersiwn ddigidol, cyflwynwyd data cryno yn y 'Dogfen Ymgynghori' fel rhan o'r ymgynghoriad cychwynnol.

Mae themâu trawsbynciol sy'n dod i'r amlwg o'r adolygiad o Bolisiau a Rhaglenni Cynlluniau rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol perthnasol fel y'u disgrifir ym Mhennod 3, hefyd wedi llywio'r set ddata sylfaenol.

4.4 Cyfyngiadau Data

Er bod Parc Cenedlaethol Eryri yn cael ei fonitro gan sawl sefydliad, sydd wedi galluogi i gyfoeth o wybodaeth gael ei chasglu, erys nifer o fylchau yn y data. Mae hyn oherwydd, er enghraifft, bod rhai rhannau o'r Parc Cenedlaethol yn cael eu hastudio'n fanylach nag eraill, ac mae gwahanol fathau o ddata'n cael ei gasglu ym mhob ardal.

Mewn rhai achosion, wrth i ddata gael ei goladu ar gyfer y ddau awdurdod cyfansoddol (Gwynedd a Chonwy) ond nid yn benodol ar gyfer y Parc Cenedlaethol, bydd anghysonderau yn bodoli a defnyddiwyd yr amcangyfrifon gorau. Rhagwelir y bydd yr amcangyfrifon hyn yn

dod yn fwy cywir gydag amser wrth i dueddiadau data gael eu dadansoddi. Bydd y broses o ddiweddu'r Adroddiad ar Gyflwr y Parc yn gallu tynnu sylw at y bylchau hyn mewn data a bydd yn nodi lle mae angen setiau data penodol.

Lle bo modd, mae'r Adroddiad ar Gyflwr y Parc diwygiedig wedi cyflwyno data tueddiadau. Fodd bynnag, ni fu hyn yn bosibl bob amser oherwydd diffyg data neu gymaroldeb setiau data dros amser. Trwy sicrhau bod pob maes ansicrwydd a bylchau data yn cael eu dogfennu, bydd yr Adroddiad ar Gyflwr y Parc yn dryloyw.

4.5 Gwaelodlin Cynaliadwyedd a Materion a Chyfleoedd Allweddol

Roedd y materion cynaliadwyedd a'r cyfleoedd i'r Parc Cenedlaethol yn cael eu nodi trwy:

- Ymgynghoriad cychwynnol â rhanddeiliaid allweddol trwy Fforwm Eryri (y Bartneriaeth a ffurfiwyd i greu a gweithredu Cynllun Partneriaeth newydd y Parc Cenedlaethol).
- Adolygiad o CPRh perthnasol (gweler **Atodiad B o Gyfrol 2**)
- Coladu data sylfaenol (gweler yr Adroddiad Cyflwr y Parc digidol a'r ddogfen ymgynghori gychwynnol)
- Profiad swyddogion APCE mewn perthynas â materion a wynebwr wrth weithio ar ran yr Awdurdod.

Crynoir y materion a'r cyfleoedd cynaliadwyedd allweddol isod a'u nodi'n fanwl yn Error! Reference source not found.4. Er bod y rhain wedi'u grwpio, mae gan lawer gysylltiad anuniongyrchol ac felly mae perthynas agos rhyngddynt. Mae gan yr holl faterion hyn oblygiadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd posibl, ac felly fe'u hystyriwyd wrth gwblhau'r drafft o Gynllun Eryri ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus terfynol. Mae'r materion a'r cyfleoedd hefyd wedi'u hystyried yn ystod y broses GC.

- Yr angen i leihau allfudiad pobl ifanc
- Goblygiadau poblogaeth sy'n heneiddio ar wasanaethau a amwynderau allweddol
- Yr angen i amddiffyn a gwella adnoddau naturiol y Parc Cenedlaethol sy'n adnoddau hamdden ac sy'n darparu buddion o ran iechyd a lles
- Mae cyfran preswylwyr y Parc Cenedlaethol sydd â salwch tymor hir cyfyngol yn is na'r ffigur cyffredinol yng Nghymru
- Yr economi cyflog isel
- Amrywiadau yn yr economi twristiaeth
- Pwysau hamdden mewn rhai rhannau o'r Parc Cenedlaethol
- Mae'r nifer uchel o dai gwyliau yn y Parc Cenedlaethol yn ychwanegu pwysau pellach at gynaliadwyedd cymunedau a'r farchnad dai
- Gostyngiad yng nghanran y rhywogaethau Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol mewn statws sy'n gwella
- Yr angen i amddiffyn yr iaith Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol
- Ansawdd a nifer y cartrefi fforddiadwy
- Addasu i'r bygythiad a'r risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd e.e. llifogydd
- Ansawdd dŵr gwael mewn rhai ardaloedd o'r Parc Cenedlaethol
- Dirywiad yn ansawdd y dirwedd arfordirol o ganlyniad i ddatblygiad
- Yr angen i leihau allyriadau carbon

- Athreuliad amgylchedd a thirweddau hanesyddol Eryri sy'n cynnwys cyfoeth o dreftadaeth adeiledig ac olion archeolegol
- Natur ymylol yr ardal a'i hygyrchedd i leoliadau eraill
- Ansawdd uchel yr amgylchedd, y mae angen ei amddiffyn a'i wella. Mae hyn yn cynnwys nifer o safleoedd cadwraeth natur o bwysigrwydd rhyngwladol gan gynnwys safleoedd Ramsar, AADd ac ACA
- Y rhwydwaith trafnidiaeth / cludiant gwael a'r system drafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig
- Yr angen i gynyddu cyfleoedd cyflogaeth a fydd yn cael sgil-ffeithiau ar ansawdd bywyd cyffredinol
- Ansawdd y cyfleoedd cyflogaeth sydd ar gael yn y Parc Cenedlaethol
- Y mynediad cyfyngedig at wasanaethau
- Yr angen i ddatblygu'r economi a thwf economaidd

Tabl 3: Crynodeb o Faterion a Chyfleoedd Cynaliadwyedd Allweddol yn y Parc Cenedlaethol

Pwnc y GC	Materion Cynaliadwyedd Allweddol	Cyfleoedd Cynaliadwyedd Allweddol
Bioamrywiaeth, fflora a ffawna	Mae'r Parc Cenedlaethol yn cefnogi bioamrywiaeth gyfoethog iawn. Mae 14 ACA, 3 safle Ramsar, 4 ACA, 107 Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) a 21 Gwarchodfa Natur Genedlaethol yn y Parc Cenedlaethol, yn ogystal ag Aber Dyfi sy'n Safle Biosffer y Byd UNESCO. Mae yna ymrwymiad gweithredol i godi ymwybyddiaeth o'r angen i amddiffyn a gwella bioamrywiaeth yn y Parc Cenedlaethol gyda nifer o fentrau'n cael eu dilyn i hyrwyddo ymgysylltiad a diddordeb ar bob lefel. Mae hyn yn rhywbeth y gellir ei hyrwyddo hefyd trwy waith a wnaed fel rhan o Gynllun Eryri. Mae'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLI) yn nodi'r cynefinoedd a'r rhywogaethau pwysicaf a geir yn Eryri. Mae Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd a Rhywogaethau (CGRh /C) a gynhwysir yn y ddogfen yn atgyfnerthu pwysigrwydd yr ardaloedd a'r rhywogaethau hyn, nid yn unig o ran eu harwyddocâd cenedlaethol a rhyngwladol ond hefyd eu pwysigrwydd lleol. Ymgymerir â gwaith monitro rheolaidd o'r CGRh /C a hyd yma fe nodwyd fod cyflwr rhywogaethau CGBLI yn well ar y cyfan na chynefinoedd CGBLI, ond yn ddiweddar bu dirywiad yng nghanran y rhywogaethau CGBLI o ran statws sy'n gwella. Mae yna heriau sylweddol o ganlyniad i ymlediad rhywogaethau goresgynnol ledled y Parc. Yn benodol, eu heffaith ar	Dylid ceisio cyfleoedd i amddiffyn a gwella pob agwedd ar fioamrywiaeth e.e. cynefinoedd pwysig a rhywogaethau gwarchodedig, yn ogystal â'r safleoedd hynny a ddiogelir gan ddeddfwriaeth. Mae hefyd yn hanfodol bod yr agweddau ar yr amgylchedd naturiol sy'n cefnogi adnoddau bioamrywiaeth yn cael eu hamddiffyn rhag datblygiad amhriodol sy'n cynnwys adnoddau dŵr a phriddoedd. Dylid chwilio am / ceisio cyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o'r angen i amddiffyn yr holl adnoddau bioamrywiaeth ar draws y Parc ac i annog newid rhagweithiol a chadarnhaol mewn rheoli tir a fydd yn helpu i amddiffyn y Parc rhag y risgiau a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd. Mae cyfleoedd yn bodoli i wella rheolaeth coedwigaeth ac i hyrwyddo prosiectau adnewyddadol yn y Parc Cenedlaethol ynghyd â chynyddu maint y coetir brodorol.

Pwnc y GC	Materion Cynaliadwyedd Allweddol	Cyfleoedd Cynaliadwyedd Allweddol
	fioamrywiaeth trwy gystadleuaeth, ysglyfaethu, croesrywio, trosglwyddo pathogenau, afiechydon a pharasitiaid.	
Tirwedd	Mae tirwedd y Parc Cenedlaethol yn cynnwys mynyddoedd garw, rhostir uchel, dyffrynnoedd coediog, llynnoedd, rhaedrau, aberoedd ac arfordir sydd i gyd yn cyfrannu at Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol. Mae mwyafrif yr ardaloedd yn y Parc Cenedlaethol yn cael eu dosbarthu fel rhai tawel ac mae'n hanfodol amddiffyn y llonyddwch hwn, yn enwedig rhag materion fel effeithiau hamdden gan gynnwys parcio, digwyddiadau wedi'u trefnu a gorlenwi ar safleoedd poblogaidd. Mae nifer o gynlluniau rheoli tir wedi cael eu datblygu a'u cymhwyso yn y Parc Cenedlaethol sydd wedi bod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at amgylchedd a thirwedd y Parc Cenedlaethol. Mae ansawdd morlin y Parc Cenedlaethol wedi dirywio'n raddol yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyda datblygiad sylweddol yn digwydd mewn trefi arfordirol gan arwain at golli nodweddion tirwedd nodedig e.e. morfeydd heli. Ychydig iawn o rannau o'r morlin sydd â chymeriad heb ei ddifetha.	Mae'n hanfodol bod cymeriad ac ansawdd y dirwedd yn cael ei amddiffyn a'i wella yn y Parc Cenedlaethol. Wrth geisio amddiffyn tirwedd y Parc Cenedlaethol, bydd yn hanfodol ystyried effeithiau posibl goleuadau a sŵn ar dawelwch a'r dirwedd. Yn ogystal ag ystyried cadwraeth strategol ehangach tirwedd y Parc, dylid ceisio cyfleoedd lle bo hynny'n briodol i wella'r dyluniad a'r tirlunio ar lefel leol i wella ansawdd yr amgylchedd lleol.
Ansawdd aer a ffactorau hinsoddol	Mae data ar gyfer Gwynedd a Chonwy yn dangos bod ansawdd aer yn dda yn y Parc Cenedlaethol, gan fod Safonau Ansawdd Aer yn cael eu bodloni.	Dylid ceisio cyfleoedd i leihau lefelau traffig, mynd i'r afael â thagfeydd a hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau trydan.

Pwnc y GC	Materion Cynaliadwyedd Allweddol	Cyfleoedd Cynaliadwyedd Allweddol
		Dylid annog datblygiadau newydd i fabwysiadu egwyddorion dylunio cynaliadwy, effeithlonrwydd ynni a defnyddio ynni adnewyddadwy e.e. cynnwys paneli solar / heulol a thechnolegau carbon isel. Dylid lleihau ôl troed carbon datblygiadau newydd e.e. trwy gymunedau mwy effeithlon ac effeithiol, rheoli tir yn gynaliadwy, hygyrchedd trafnidiaeth a lleoliad / dyluniad datblygu. Dylid osgoi diraddio a cholli mawn er mwyn atafaelu carbon i'r eithaf sy'n gysylltiedig â'r math hwn o gynefin. Dylid ceisio cyfleoedd i leihau'r bygythiad a'r risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd e.e. lefelau'r môr yn codi a llifogydd. Mae angen ymchwilio a hwyluso addasu ar gyfer bywyd gwyllt i newid yn yr hinsawdd, a sefydlu cysylltedd a chynefinoedd / coridorau rhywogaethau.
Adnoddau dŵr	Mae ansawdd dŵr yn y cyrsiau dŵr ar draws y Parc Cenedlaethol yn gyffredinol dda. Fodd bynnag, mae gweithgareddau amaethyddol a mwyngloddiau segur yn ffactor allweddol sy'n effeithio ar ansawdd dŵr a gall fod yn anodd rheoli llygredd gwasgareddig. Mae llawer o'r cyrsiau dŵr a'r cyrff dŵr yn y Parc Cenedlaethol hefyd yn safleoedd dynodedig am resymau cadwraeth. Mae ansawdd y traethau yn y Parc Cenedlaethol a'r cyffiniau yn dda	Mae ansawdd a chyflwr yr amgylchedd dŵr yn hanfodol i'r amgylchedd ehangach ac ansawdd bywyd. Dylid ceisio cyfleoedd i wella ansawdd dŵr. Dylid annog datblygiad newydd i ymgorffori Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy i reoli dŵr ffo o ddatblygiad newydd. Trwy Gynllun Eryri, dylid hyrwyddo mesurau arbed dŵr a'r angen i warchod adnoddau dŵr.

Pwnc y GC	Materion Cynaliadwyedd Allweddol	Cyfleoedd Cynaliadwyedd Allweddol
	ac mae nifer o'r traethau wedi cyflawni statws Baner Las. Mae her benodol yng Nghymru yn ymwneud â rheoli cyflenwad dŵr a'r lefelau uchel o amrywiad yn y galw trwy gydol y flwyddyn. Un o'r heriau mwyaf yw cynnal cyflenwad dŵr cyhoeddus yn ystod misoedd yr haf pan fo mewnlifiad mawr o dwristiaid yn dod i mewn i Gymru. Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb hwn yn gorwedd gyda Dŵr Cymru. Er y gallai fod cyfleoedd trwy Gynllun Eryri i hyrwyddo'r defnydd cynaliadwy o adnoddau dŵr.	
Daeareg a phriddoedd	Mae tir yn y Parc Cenedlaethol wedi'i ddosbarthu i raddau helaeth fel Gradd 5. Er nad oes unrhyw ardaloedd o ansawdd da iawn neu ragorol, mae'n hanfodol rheoli priddoedd amaethyddol yn effeithiol oherwydd pwysigrwydd amaethyddiaeth i'r economi leol. Mae angen codi ymwybyddiaeth ar draws y Parc Cenedlaethol o'r pwysigrwydd i amddiffyn adnoddau pridd a gwella technegau rheoli tir. Mae gan Barc Cenedlaethol Eryri gymeriad daearegol gweladwy unigryw sy'n rhan sylfaenol o'i dirwedd a'i olygfeydd rhagorol, wedi'i ffurfio a'i siapio gan brosesau cymhleth esblygiad a newid yn yr hinsawdd. Mae'n cynnwys cyfoeth o nodweddion daearegol a geomorffolegol o bwys cenedlaethol a lleol, ac mae ganddo ystod eang o fathau o bridd sy'n cael eu dylanwadu gan y ddaeareg sylfaenol a'r mathau o greigiau a hefyd yr arfer / gweithgaredd rheoli tir arno. Mae dynodiadau daearegol yn y Parc	Mae angen amddiffyn a gwella holl swyddogaethau'r pridd e.e. atafaelu ac atafaelu carbon. Dylid osgoi dirywiad a datblygiad pridd mawn.

Pwnc y GC	Materion Cynaliadwyedd Allweddol	Cyfleoedd Cynaliadwyedd Allweddol
	Cenedlaethol yn cynnwys SoDdGAu a nifer o Safleoedd Daearegol a Geomorffolegol Pwysig Rhanbarthol (SDGPRh). Yn ddiweddar, mae gweithredoedd dynol wedi effeithio ar adnoddau daearegol a phridd trwy bwysau fel coedwigo masnachol ac adfywio ac erydiad coed naturiol oherwydd gweithgareddau hamdden a gorburi.	
Mwynau, gwastraff ac ailgylchu	Mae amrywiaeth o fwynau gan gynnwys llechi, craig galed a metelau gan gynnwys aur, copr a phlwm i'w cael yn y Parc Cenedlaethol ac maent wedi'u hechdynnu. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae diffyg gwybodaeth am adnoddau ac ansawdd creigiau caled yn y Parc Cenedlaethol. Mae diffyg carreg adeiladu leol yn y Parc Cenedlaethol sydd ei angen ar gyfer adeiladu tai. Gall mathau eraill o gerrig y tu allan i'r Parc Cenedlaethol edrych allan o'u lle ac effeithio'n andwyol ar ansawdd y treflun.	Dylid ceisio cyfleoedd i leihau cynhyrchu gwastraff ac i fabwysiadu egwyddorion rheoli gwastraff cynaliadwy mewn datblygiad newydd. Os datblygir gweithfeydd mwynau newydd i ddod o hyd i garreg adeiladu leol, rhaid asesu'r effeithiau amgylcheddol posibl yn drylwyr cyn eu datblygu.
Treftadaeth Ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol	Yn y Parc Cenedlaethol mae 14 Ardal Gadwraeth, 1900 o Adeiladau Rhestredig (13 Gradd 1 a 119 yn Radd 2 *), safle Treftadaeth y Byd (Castell Harlech), safle Treftadaeth y Byd posib a thirwedd ddiwylliannol a 377 Heneb Gofrestredig. Mae'r holl nodweddion hyn yn cyfrannu at dirwedd nodedig y Parc a'i gymeriad hanesyddol. Yn ychwanegol at y safleoedd a ddiogelir gan ddeddfwriaeth, mae'n bwysig cydnabod bod nifer o nodweddion eraill heb eu dynodi	Dylai'r holl nodweddion treftadaeth ddiwylliannol yn y Parc Cenedlaethol gael eu gwarchod a'u gwella. Yn ogystal â chadw safleoedd statudol mae'n bwysig sicrhau bod y dirwedd hanesyddol ehangach yn cael ei gwarchod a bod materion treftadaeth ddiwylliannol yn cael eu hystyried ym mhob datblygiad newydd sy'n digwydd yn y Parc.

Pwnc y GC	Materion Cynaliadwyedd Allweddol	Cyfleoedd Cynaliadwyedd Allweddol
	yn y Parc Cenedlaethol sydd hefyd yn werth eu gwarchod yn eu rhinwedd eu hunain ac sy'n ffurfio rhan werthfawr o dreftadaeth y Parc Cenedlaethol. Mae Cadw yn cadw cofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol yng Nghymru. Fe'u graddir ar sail pwysigrwydd a gwerth hanesyddol. Ar hyn o bryd mae 21 o Barciau a Gerddi Hanesyddol yn y Parc Cenedlaethol. Er nad ydynt yn cael eu gwarchod yn statudol, mae'n ofynnol i awdurdodau cynllunio lleol eu trin fel ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae llawer o'r safleoedd treftadaeth hyn hefyd yn gyrchfannau gwerthfawr i dwristiaid sy'n cyfrannu at economi'r Parc Cenedlaethol, er enghraifft Castell Harlech. Mae yna nifer o enghreifftiau da eraill o adeiladwaith bensaernïol leol ar draws y Parc Cenedlaethol a dylid amddiffyn yr adeiladau traddodiadol hyn er nad ydyn nhw o reidrwydd yn cael eu gwarchod gan ddeddfwriaeth.	Dylid ceisio cyfleoedd i wella dealltwriaeth a gwerthfawrogiad o adnoddau treftadaeth ddiwylliannol. Mae angen amddiffyn y Gymraeg a hunaniaeth ddiwylliannol unigryw.
4	Mae Eryri ar y blaen yn rhyngwladol wrth fynd i'r afael yn llwyddiannus â rhywogaethau goresgynnol, plâu a chlefydau sy'n effeithio ar rywogaethau brodorol.
5	Mae cymunedau, busnesau ac ymwelwyr yn chwarae rhan weithredol wrth ofalu am dirweddau, cynefinoedd, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol
6	Mae Eryri yn enghraifft flaenllaw yng Nghymru o sut i ofalu am a hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol.
7	Mae ein Rhinweddau Arbennig wedi'u diogelu'n dda.
8	Mae'r Parc Cenedlaethol yn cael effaith gadarnhaol ar les ein cenedl.
9	Gall preswylwyr ac ymwelwyr gael mynediad at amrywiaeth o lwybrau yn y Parc Cenedlaethol sydd â'r nod o wella iechyd corfforol a meddyliol.
10	Mae ein Rhinweddau Arbennig yn cael eu cydnabod a'u deall yn eang.

11	Cyflawnir opsiynau cynaliadwy ar gyfer parcio a chludiant.
12	Mae ein cyfleusterau i ymwelwyr o ansawdd uchel ac yn sensitif i'r dirwedd.
13	Mae iaith, diwylliant a threftadaeth Eryri yn cael ei dathlu, ei gefnogi a'i gryfhau.
14	Mae swyddi a chyfleoedd yn annog pobl i ymgartrefu yn yr ardal.
15	Rydym yn gweithredu atebion ar gyfer tai fforddiadwy i'w prynu a'u rhentu.
16	Cefnogir cymunedau lleol i ffynnu ym mhob agwedd ar lesiant.

Tabl 9: Canlyniadau / Deilliannau Cynllun Eryri

7.2.2. Crynodeb o'r Matrics Cydnawsedd

Aseswyd pob un o Ganlyniadau Cynllun Eryri yn erbyn Amcanion y GC mewn matrices cydnawsedd i bennu eu cydnawsedd ac i nodi unrhyw feysydd posibl lle mae angen sefydlu Amcanion newydd neu egluro'r rhai presennol, gweler **Atodiad D**.

Mae'r Fethodoleg ym Mhennod 5.6.3 yn amlinellu sut yr aseswyd Canlyniadau Cynllun Eryri yn erbyn Amcanion y GC i bennu eu cryfderau a'u gwendidau cynaliadwyedd allweddol.

Mae **Atodiad D** yn cyflwyno cydnawsedd Canlyniadau Cynllun Eryri â Fframwaith y GC. Mae'n defnyddio'r allwedd ganlynol:

☐ = Mae'r amcanion yn gydnaws

X = Gall amcanion / nodau fod yn anghydnaws

0 = Nid oes cysylltiad rhwng amcanion

? = Mae'r cysylltiad rhwng yr amcanion yn ansicr

Aseswyd pob un o'r 16 Canlyniadau / Deilliannau a amlinellir yng Nghynllun Eryri naill ai'n gydnaws â'r Fframwaith GC neu nad oes cysylltiad (ac felly nid ydynt yn destun asesiad).

Felly ni nodwyd unrhyw wrthdaro sylweddol trwy'r asesiad cydnawsedd.

7.2.3. Crynodeb o'r asesiad llawn o'r Deilliannau / Canlyniadau

Mae **Atodiad E** yn cyflwyno'r asesiad manwl llawn o Ganlyniadau / Deilliannau Cynllun Eryri, a nodwyd ar draws tri phennawd eang y Cynllun ac sy'n adlewyrchu pwrpasau a dyletswydd y Parc Cenedlaethol (Yr Amgylchedd, Lles a'r Economi).

Mae Tabl 8 yn cyflwyno'r allwedd a ddefnyddir yn **Atodiad E** i asesu'r Canlyniadau yn erbyn Amcanion y GC.

Mae pob Amcan GC wedi cael ei groesgyfeirio â chynnwys Cynllun Eryri ac mae'r Canlyniadau wedi'u hasesu yn nhermau:

- Graddfa'r effaith (tymor byr, canolig neu hir)
- Graddfa'r effaith ar y raddfa ofodol h.y. ym Mharc Cenedlaethol Eryri ac effeithiau Rhanbarthol / Trawsffiniol
- Effeithiau Cadarnhaol / Niwtral / Negyddol a lefel sicrwydd y rhain
- A fyddai'r effaith yn barhaol neu'n dros dro

Tabl 8. Nodiant Asesu a Ddefnyddir i Gwblhau'r Matricsau

Effaith	Disgrifad	Symbol
Effaith gadarnhaol fawr	Mae'r amcan yn cyfrannu at gyflawni pob elfen o Amcan y GC.	++
Effaith Gadarnhaol	Mae'r cyfrannu amcan rhannol at gyflawni y GC Amcan ond nid yn gyfan gwbl.	+
Dim Effaith / Niwtral	Nid oes perthynas glir rhwng yr amcan a / neu gyflawni Amcan y GC neu mae'r berthynas yn ddibwys.	①
Effaith Negyddol	Mae'r amcan yn tynnu oddi ar gyflawni rhai elfennau o Amcanion y GC.	—
Effaith Negyddol Mawr	Mae'r tynnu amcan o gyflawni pob elfen o'r Amcan GC.	— —
Effaith ansicr - mae angen mwy o wybodaeth	Nid yw'n bosibl pennu natur yr effaith oherwydd gall fod gormod o ffactorau allanol a fyddai'n dylanwadu ar yr arfarniad neu gallai'r effaith ddibynnu'n fawr ar ei gweithredu ar lefel leol.	?
Effeithiau Cadarnhaol a Negyddol	Mae gan yr amcan gyfuniad o gyfraniadau cadarnhaol a negyddol at gyflawni Amcan y GC.	+/-
Lefel Ansicrwydd		
	Mae lefel uchel o ansicrwydd yn y rhagfynegiad effaith.	Uchel
	Mae rhywfaint o ansicrwydd canolig yn y rhagfynegiad effaith.	Canolig
	Mae rhywfaint o ansicrwydd yn y rhagfynegiad effaith.	Isel
Effaith Barhaol	Byddai derbynnydd yn profi newid parhaol o ganlyniad i'r opsiwn / polisi.	Parhaol
Effaith Dros Dro	Byddai derbynnydd yn profi newid dros dro o ganlyniad i'r polisi opsiwn.	Dros dro

Mae **Atodiad E** yn cyflwyno canfyddiadau ac argymhellion yr asesiad manwl a strwythuredig, ac fe'u crynhoir fel a ganlyn:

Canlyniad / Deilliannau	Effaith cynaliadwyedd cyffredinol	Sylw
Amgylchedd Eryri: Mae ein hasedau naturiol a hanesyddol a'n hamgylchedd syfrdanol yn derbyn gofal ac yn cael eu gwella	Cadarnhaol	Aseswyd bod y Canlyniadau / Deilliannau yn yr adran hon o Gynllun Eryri yn cael effaith gadarnhaol, hirdymor fawr mewn 6 maes o'r fframwaith Amcanion Cynaliadwyedd, o fewn y PC a chydag effaith barhaol a risg isel o ansicrwydd. Y meysydd hyn yw: Amddiffyn a gwella cymeriad ac ansawdd y dirwedd; Diogelu daeareg a geomorffoleg y Parc Cenedlaethol; Amddiffyn a gwella bioamrywiaeth; Gwerthfawrogi, amddiffyn a gwella'r amgylchedd hanesyddol gan gynnwys treftadaeth adeiledig, archeoleg a thirwedd hanesyddol; Gwerthfawrogi a gwarchod amrywiaeth a hynodrwydd lleol gan gynnwys cymeriad treflun; Hyrwyddo mecanweithiau ar gyfer lleihau gwastraff, mwy o ailddefnyddio ac ailgylchu. Mewn 7 maes arall, aseswyd eu bod yn cael effaith gadarnhaol o fewn PCE, gyda chanlyniadau parhaol a risg isel o ansicrwydd. Yn y 13 meysydd uchod, hefyd roedd disgwyl Deilliannau rhain i gael effaith gadarnhaol ar y cyfan ar y lefel trawsffiniol / rhanbarthol. Nid yw 7 o'r Amcanion Cynaliadwyedd yn uniongyrchol berthnasol i'r Canlyniad hwn, ond maent yn cael sylw manwl mewn meysydd eraill o Gynllun Eryri.
Iechyd a Lles Eryri: Mae Eryri yn darparu cyfoeth o gyfleoedd i ddysgu a darganfod ac ar yr un pryd, gwella ein lles	Cadarnhaol	Aseswyd bod y Canlyniadau yn yr adran hon o Gynllun Eryri yn cael effaith gadarnhaol, hirdymor fawr mewn 6 maes o'r fframwaith Amcanion Cynaliadwyedd, o fewn y PC a gyda risg isel o ansicrwydd. Y meysydd hyn yw: Gwarchod, hyrwyddo a gwella treftadaeth ddiwylliannol Eryri a'r iaith Gymraeg;

		Hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol gan y cyhoedd; Darparu cyfleoedd dysgu; Hyrwyddo a hwyluso gwell ymgysylltiad cymunedol; Darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu; Hyrwyddo cysylltiadau cludiant da i gefnogi'r economi leol; Hyrwyddo dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a mwynhad o'r iaith a'r dreftadaeth ddiwylliannol yn ei ystyr ehangaf. Mewn 6 maes arall cawsant eu hasesu a chanfuwyd eu bod yn cael effaith gadarnhaol o fewn PCE, gyda chanlyniadau parhaol a risg isel o ansicrwydd. Yn y 12 maes uchod, hefyd roedd disgwyl i'r Canlyniadau / Deilliannau hyn gael effaith gadarnhaol ar y cyfan ar y lefel trawsffiniol / rhanbarthol. Nid yw 8 o'r Amcanion Cynaliadwyedd yn uniongyrchol berthnasol i'r Canlyniad hwn, ond maent yn cael sylw manwl mewn meysydd eraill o Gynllun Eryri.
Cymuned ac Economi Eryri: Mae Eryri yn lle gwych i fyw, datblygu a gweithio	Cadarnhaol	Aseswyd bod y Canlyniadau / Deilliannau yn yr adran hon o Gynllun Eryri yn cael effaith gadarnhaol, hirdymor fawr mewn 5 maes o'r fframwaith Amcanion Cynaliadwyedd, o fewn y PC a gyda risg isel o ansicrwydd. Y meysydd hyn yw: Gwarchod, hyrwyddo a gwella treftadaeth ddiwylliannol Eryri a'r iaith Gymraeg; Hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol gan y cyhoedd; Hyrwyddo dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a mwynhad o'r iaith a'r dreftadaeth ddiwylliannol yn ei ystyr ehangaf; Darparu cyfleoedd dysgu.

		Mewn 8 maes fe'i haseswyd a chanfuwyd effaith gadarnhaol o fewn PCE, gyda chanlyniadau parhaol a risg isel o ansicrwydd. Yn yr 13 maes uchod, roedd disgwyl i'r Canlyniadau hyn hefyd gael effaith gadarnhaol gyffredinol ar y lefel drawsffiniol / ranbarthol. Nid yw 7 o'r Amcanion Cynaliadwyedd yn uniongyrchol berthnasol i'r Canlyniad hwn, ond maent yn cael sylw manwl mewn meysydd eraill o Gynllun Eryri.
--	--	--

Tabl 10: Crynodeb o'r asesiad Canlyniadau

Mae Tabl 10 ac **Atodiad E** yn dangos yn glir nad yw unrhyw un o Ganlyniadau Cynllun Eryri wedi cael eu hasesu fel rhai sy'n cael effaith negyddol. Ystyrir bod llawer yn cael effaith gadarnhaol a chadarnhaol fawr gan arwain at ddyfodol mwy cynaliadwy ar gyfer Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol, gyda llawer ohonynt â chyrhaeddiad y tu hwnt i ffiniau'r Parc Cenedlaethol. Mae lefelau ansicrwydd yng nghanfyddiadau'r asesiad yn isel ar y cyfan a bernir bod llawer o'r effeithiau cadarnhaol craidd yn ychwanegiadau parhaol i ardal y Parc Cenedlaethol a'r ardal o'i amgylch. Mae nifer o'r canlyniadau'n awgrymu dangosyddion perfformiad niwtral, o ganlyniad nad oes unrhyw effaith debygol ac arwyddocaol o'r gweithredoedd ar y cyd arfaethedig hynny i gydran benodol Rhinweddau Arbennig cymunedol, economaidd neu amgylcheddol Eryri a'r ddealltwriaeth a'r mwynhad ohonynt.

O ystyried effeithiau tebygol a sylweddol gweithredu gweithredoedd Cynllun Eryri yn erbyn amcanion datblygu cynaliadwy sy'n adlewyrchu tueddiadau a materion cyfredol yn benodol ar draws y Parc Cenedlaethol, mae'n debygol iawn y bydd y fframwaith o gamau rheoli yn y dyfodol ar draws Eryri yn arwain at ganlyniadau cynaliadwyedd mwy cadarnhaol.

Nid yw'r crynodeb canfyddiadau hwn yn annisgwyl o ystyried yr egwyddorion sylfaenol gynaliadwy sy'n gyrru pwrpas Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, a'r fframwaith statudol a'r cyd-destun cyfreithiol y mae'n cael ei baratoi ynddo. At hynny, mae dyletswyddau partneriaid corff statudol a ffocws cynaliadwyedd sylfaenol yr ystod eang o bartneriaid rhanddeiliaid sydd wedi bod yn ganolog i ddatblygiad y cynllun, wedi dod ynghyd i gynhyrchu fframwaith Cynhenid Cynaliadwy o ganlyniadau gyda chwmpas eang ac effeithiau cyfannol.

7.3 Effeithiau Cronnus a Synergaid

7.3.1 Cyflwyniad

Fel y disgrifir yn Adran 5 yr adroddiad hwn, mae nifer o wahanol fathau o effeithiau cronrus. Mae'r rhan hon o Adroddiad yr SA yn cyflwyno asesiad o effeithiau cronrus

a synergaidd Cynllun Eryri ar dderbynyddion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn y Parc Cenedlaethol.

7.3.2 Asesu Effeithiau Cronnus a Synergaid

Mae adnabod ac asesu effeithiau cronnus a synergaidd wedi cael ei wneud trwy fabwysiadu dull seiliedig ar dderbynydd, fel yr awgrymir gan ganllaw arfer da (gweler 3.1). Mae hyn yn ei hanfod yn golygu ystyried yr effeithiau ar sail pwnc wrth bwnc, e.e. bioamrywiaeth, tirwedd, ac ati yn hytrach na diffinio effeithiau yn ôl Amcan y GC.

Mae **Atodiad F** yn cyflwyno'r asesiad o effeithiau posibl y gellid eu gwireddu o ganlyniad i weithredu'r strategaethau a ffefrir yn ôl pwnc y derbynydd. Mae'r pynciau derbynyddion yn cynnwys pynciau Cyfarwydddeb yr AAS ond maent hefyd yn ymdrin â meysydd pwnc cymdeithasol ac economaidd ehangach. Rhoddir arwydd o gyfeiriad tebygol yr effeithiau, rhywfaint o sylwebaeth esboniadol sy'n tynnu sylw at sut y gallai meysydd penodol o Gynllun Eryri arwain at effeithiau cronnus o'r fath, y meysydd pwnc cysylltiedig y gellid eu heffeithio ac unrhyw fesurau lliniaru allweddol neu argymhellion sydd wedi'u hystyried gan wneuthurwyr y Cynllun.

Crynoir y pwyntiau allweddol o hyn fel a ganlyn:

- Mae canlyniadau sy'n gysylltiedig â bioamrywiaeth, fflora a ffawna yn debygol o gael effaith gronrus gadarnhaol wrth i nifer o'r Canlyniadau / Deilliannau yng Nghynllun Eryri ganolbwyntio ar amddiffyn a gwella cynefinoedd a rhywogaethau ledled y Parc Cenedlaethol.
- Mae canlyniadau sy'n gysylltiedig ag ansawdd aer yn debygol o gael effaith gronrus gadarnhaol yn y tymor hir, oherwydd y ffocws ar dwristiaeth a thrafnidiaeth gynaliadwy, adfer, ehangu a gwella cydnerthedd a chymysgedd rhywogaethau coed a choetiroedd brodorol, priddoedd a mawn.
- Mae canlyniadau sy'n gysylltiedig â ffactorau hinsoddol yn debygol o gael effaith gronrus gadarnhaol oherwydd y ffocws cryf trwy gydol Cynllun Eryri ar yr angen i liniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- Mae canlyniadau sy'n gysylltiedig ag adnoddau dŵr yn debygol o gael effaith gronrus gadarnhaol oherwydd y ffocws yng Nghynllun Eryri ar ddefnydd cynaliadwy o adnoddau dŵr a diogelu a gwella ansawdd dŵr.
- Mae canlyniadau sy'n gysylltiedig â daeareg a phriddoedd yn debygol o gael effaith gronrus gadarnhaol oherwydd yr ymrwymiad clir i'r angen i amddiffyn a gwella geoamrywiaeth.
- Mae canlyniadau sy'n gysylltiedig ag asedau materol yn debygol o gael effaith gronrus gadarnhaol wrth i nifer o Ganlyniadau yng Nghynllun Eryri fynd i'r afael â sefydlu prosiectau rheoli gwastraff cynaliadwy a hyrwyddo dulliau cludiant cynaliadwy.
- Mae canlyniadau sy'n gysylltiedig â phoblogaeth ac iechyd yn debygol o gael effaith gronrus gadarnhaol gan fod ymrwymiad clir yn amlwg yng Nghynllun Eryri drwyddo draw i amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol, yn ogystal â gwella hygyrchedd at wasanaethau ac amwynderau lleol ar gyfer pob sector o'r boblogaeth.

- Mae canlyniadau sy'n gysylltiedig â threftadaeth ddiwylliannol yn debygol o gael effaith gronnus gadarnhaol gan fod nifer o Amcanion Strategol yng Nghynllun Eryri sy'n ceisio amddiffyn a gwella adnoddau treftadaeth ddiwylliannol. Mae ffocws clir ar amddiffyn amrywiaeth a hynodrwydd y Parc Cenedlaethol a'i Rinweddau Arbennig.
- Mae canlyniadau sy'n gysylltiedig â thirwedd a threfwedd yn debygol o gael effaith gronnus gadarnhaol wrth i Gynllun Eryri geisio amddiffyn a gwella pob agwedd ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol yn y Parc Cenedlaethol a ddylai fod o fudd i'r dirwedd / treflun.
- Mae canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r economi yn debygol o gael effaith gronnol niwtral (ond a allai fod yn gadarnhaol yn y tymor hir), gan nad yw Cynllun Eryri yn canolbwyntio ar ddyrannu tir nac ar ddarparu cyfleoedd cyflogaeth newydd. Fodd bynnag, fe all fod rhai buddion cronrus anuniongyrchol o ganlyniad i weithredu'r Cynllun.
- Mae canlyniadau sy'n gysylltiedig â thai yn debygol o gael effaith gronnol niwtral wrth i anghenion tai a dyraniad tir ar gyfer tai yn y Parc Cenedlaethol gael sylw yn y CDLI. Mae Cynllun Eryri yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r camau a amlinellir yn y CDLI.
- Mae canlyniadau sy'n gysylltiedig ag amddifadedd a'r amgylchedd byw yn debygol o gael effaith gronnus gadarnhaol wrth i Gynllun Eryri geisio codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol, yn ogystal â gwarchod a gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig y Parc. Gyda'i gilydd, dylai'r Canlyniadau yng Nghynllun Eryri wella ansawdd bywyd preswylwyr y Parc Cenedlaethol.
- Mae canlyniadau sy'n gysylltiedig ag addysg a chymwysterau yn debygol o gael effaith gronnol niwtral oherwydd er bod ffocws trwy gydol Cynllun Eryri ar godi ymwybyddiaeth a darparu cyfleoedd dysgu, ni ystyrir ei bod yn debygol y bydd newidiadau cronrus sylweddol i gyrhaeddiad addysgol yn y Parc Cenedlaethol o ganlyniad i'w weithredu, yn hytrach mwy o ymwybyddiaeth o faterion sy'n berthnasol i Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol.

8. Y Fframwaith Monitro

8.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn darparu fframwaith monitro amlinellol a chyngor ar gyfer monitro effeithiau sylweddol gweithredu Cynllun Eryri. Mae monitro yn broses barhaus sy'n rhan annatod o weithredu Cynllun Eryri, a gellir ei ddefnyddio i:

- Bennu perfformiad y cynllun a'i gyfraniad at amcanion a thargedau.
- Nodi perfformiad mesurau lliniaru.
- Lenwi bylchau data a nodwyd yn gynharach yn y broses GC.
- Nodi effeithiau cynaliadwyedd negyddol sy'n dod i'r amlwg.
- Cadarnhau a oedd rhagfynegiadau cynaliadwyedd yn gywir.

8.2 Gofynion y Gyfarwydddeb AAS

Amlinellir y gweithgareddau sy'n berthnasol i fonitro a nodir yn y Gyfarwydddeb AAS ym **Blwch 6**.

Blwch 6: Gofynion Cyfarwydddeb AAS sy'n Gymwys i Fonitro

'Member States shall monitor the significant environmental effects of the implementation of plans and programmes.... in order, inter alia, to identify at an early stage unforeseen adverse effects, and to be able to undertake appropriate remedial action' (Article 10.1).

The Environmental Report should provide information on a 'description of the measures envisaged concerning monitoring' (Annex 1(i)).

8.3 Y Dull Gweithredu / Ymagwedd

Mae'r fframwaith monitro wedi'i ddatblygu i fesur effeithiau gweithredu Cynllun Eryri gan ddefnyddio dangosyddion sy'n briodol i gwmpas ac effeithiau posibl y cynllun.

Mae Tabl 11 yn cyflwyno'r fframwaith monitro ac yn esbonio'r effeithiau a fydd yn cael eu monitro a pham.

Yn ogystal â monitro dangosyddion penodol sy'n gysylltiedig â gweithredu Cynllun Eryri, mae monitro cyd-destunol o newid cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol wedi'i gynnwys, h.y. adolygiad rheolaidd o amodau sylfaenol yn y Parc Cenedlaethol.

Yn ogystal ag ymgymryd â monitro sy'n benodol i'r broses GC, bydd monitro blynyddol yn cael ei wneud er mwyn i Gynllun Eryri ei hun bennu cynnydd yn erbyn y Canlyniadau, y Polisiâu a'r Cynllun Gweithredu. Bydd hwn yn cael ei gyflwyno fel adroddiad i Aelodau Awdurdod y Parc Cenedlaethol gan y Rheolwr Partneriaethau (neu'r Swyddog APCE perthnasol) yn ogystal ag i Fforwm Eryri. Cyhoeddir y canlyniadau mewn Adroddiad Monitro Blynyddol a Diweddariadau i Adroddiad ar Gyflwr y Parc 5 mlynedd. Bydd y monitro rheolaidd yn llywio diweddariadau bob dwy flynedd o'r Cynllun Gweithredu. Bydd cynnwys Cynllun Eryri yn cael ei adolygu bob pum mlynedd. Felly bydd effeithiau Canlyniadau Cynllun Eryri yn destun craffu sylweddol yn rheolaidd.

8.4 Y Fframwaith Monitro Arfaethedig

Mae Tabl 11 yn darparu fframwaith ar gyfer monitro effeithiau Cynllun Eryri a phenderfynu a yw'r effeithiau amgylcheddol a ragwelir yn cael eu gwireddu. Mae'r fframwaith wedi'i seilio ar amcanion Fframwaith y GC ac mae'n cynnwys yr elfennau a ganlyn:

- Yr effaith sylweddol bosibl sydd angen cael ei fonitro.
- Dangosydd monitro addas.
- Esboniad pam mae'r dangosydd monitro hwnnw wedi'i ddefnyddio.
- Y ffynhonnell ddata bosibl.
- Amledd y monitro.

Bydd Cynllun Eryri yn rhedeg tan 2025 ac mae hwn yn gyfnod sylweddol o amser pan fydd angen iddo gael ei fonitro. Defnyddir dangosyddion monitro a gynigir ar gyfer y cynllun rheoli lle bynnag y bo modd ar gyfer monitro cynaliadwyedd. Mae tebygrwydd cryf yn bodoli rhwng amcanion Cynllun Eryri a'r arfarniad cynaliadwyedd felly dylid disgwyl effeithlonrwydd o'r fath a chynnig dull synhwyrol a chost-effeithiol. Felly mae'r fframwaith a amlinellir yn Nhabl 11 wedi'i adeiladu ar ganfyddiadau'r GC, y dangosyddion a fydd yn cael eu defnyddio i fonitro Cynllun Eryri gan APCE a chanllawiau arfer da.

Ar gyfer nifer o'r dangosyddion arfaethedig a nodwyd yn y fframwaith monitro, prin yw'r wybodaeth waelodlin sydd ar gael, os o gwbl. Felly, efallai y bydd angen, cyn cychwyn y fframwaith monitro hwn i APCE gasglu gwybodaeth ychwanegol am statws dangosyddion o'r fath ar draws y Parc Cenedlaethol. Mae'r dangosyddion a ddewiswyd ar gyfer y broses fonitro wedi cael eu canolbwyntio cyn belled ag y bo modd ar weithredoedd a phwmpas Cynllun Eryri. Thema allweddol Cynllun Eryri yw codi ymwybyddiaeth a newid ymddygiad ac agweddau. Mae'n anodd iawn penderfynu ar newidiadau o'r fath ac i ba raddau y gallai newid o'r fath fod wedi dylanwadu ar adnoddau amgylcheddol.

Tabl 11: Fframwaith ar gyfer monitro effeithiau Cynllun Eryri

Amcan y GC	Effaith i'w Monitro	Dangosydd Monitro	Cyfiawnhad dros Ddefnyddio Dangosydd	Ffynhonnell Data	Amserlen Adolygu
Rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd trwy liniaru ac addasu	Mae Cynllun Eryri yn ceisio codi ymwybyddiaeth am newid hinsawdd ar draws y Parc Cenedlaethol. Bydd yn bwysig penderfynu a yw'r Canlyniadau / Deilliannau yng Nghynllun Eryri yn arwain at ddefnyddio mwy o dechnolegau ynni adnewyddadwy yn y Parc Cenedlaethol. Bydd cadw priddoedd mawndir yn arbennig o bwysig a dylid monitro rheolaeth effeithiol priddoedd o'r fath.	Nifer y cartrefi yn y Parc Cenedlaethol yn uwchraddio i ddewisiadau amgen adnewyddadwy trwy gyfrwng ceisiadau Cynllunio. Cymhareb ynni adnewyddadwy (caniatâd cynllunio prosiect heulol / solar, gwynt domestig a hydro / dŵr a roddir yn erbyn ceisiadau cynllunio bob blwyddyn). Ardaloedd o goetir, mawn a phriddoedd organig wedi cynyddu au hadfer. Dichonoldeb mabwysiadu dull Mynegai Bregusrwydd Hinsawdd tuag at	Mae yna nifer o Ganlyniadau / Deilliannau Nghynllun Eryri sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o newid yn yr hinsawdd yn y Parc Cenedlaethol a hefyd hyrwyddo newidiadau mewn agweddau ac ymddygiadau i sicrhau bod mesurau lliniaru ac addasu priodol ar waith.	APCE CNC	Yn flynyddol

Amcan y GC	Effaith i'w Monitro	Dangosydd Monitro	Cyfiawnhad dros Ddefnyddio Dangosydd	Ffynhonnell Data	Amserlen Adolygu
		asedau'r Parc Cenedlaethol.			
Sicrhau bod lleoliad a dyluniad datblygiad newydd yn dderbyniol o ran canlyniadau posibl llifogydd.	Ni fydd Cynllun Eryri ei hun yn penderfynu ble mae datblygiad newydd. Fodd bynnag, gallai helpu i dynnu sylw at y risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd ac annog dulliau mwy synhwyrol o leoli datblygiad newydd yn y tymor hir. Gellid monitro hyn i bennu'r effaith ar ymddygiad ac agweddau. Mae CRhPC hefyd yn hyrwyddo ansawdd da, dyluniad cynaliadwy a bydd yn bwysig monitro i ba raddau y bydd dyluniad cynaliadwy yn digwydd ar draws y Parc Cenedlaethol.	Nifer y datblygiadau newydd mewn parthau llifogydd. Nifer y datblygiadau newydd sy'n ymgorffori SuDS fel cymhareb o gyfanswm y caniatâd cynllunio a roddwyd.	Mae gan Gynllun Eryri y potensial i godi ymwybyddiaeth o'r angen i ddefnyddio dyluniad cynaliadwy a hefyd ar gyfer osgoi risg llifogydd.	Asiantaeth yr Amgylchedd APCE	Yn flynyddol
Amddiffyn a gwella cymeriad ac ansawdd y dirwedd.	Mae Cynllun Eryri yn cynnwys nifer o Ganlyniadau / Deilliannau	Nifer y dirwedd Eithriadol a Gwerth Uchel fel y'i diffinnir o	Bydd yn anodd iawn monitro newidiadau i gymeriad ac ansawdd	APCE CNC	Bob pum mlynedd.

Amcan y GC	Effaith i'w Monitro	Dangosydd Monitro	Cyfiawnhad dros Ddefnyddio Dangosydd	Ffynhonnell Data	Amserlen Adolygu
	sy'n mynd i'r afael â'r angen i amddiffyn a gwella cymeriad y dirwedd.	dan LANDMAPs bum agwedd, diwylliannol, daearegol, cynefin tirwedd a gweledol a synhwyrdd.	tirwedd y Parc Cenedlaethol. Fodd bynnag, rhagwelir y dylai LANDMAP fod yn offeryn defnyddiol i gynorthwyo'r broses hon.		
Amddiffyn a gwella ansawdd aer.	Ni ragwelir y bydd Cynllun Eryri yn arwain at effeithiau andwyol ar ansawdd aer. Fodd bynnag, gellid cynnal rhywfaint o fonitro cyd-destunol i gefnogi monitro arall e.e. Tawelwch. Yn y tymor hir gallai fod rhai gwelliannau i ansawdd aer o ganlyniad i'r Canlyniadau yn y CRhPC sy'n ceisio lleihau pellteroedd teithio a hyrwyddo'r defnydd o ddulliau cludo mwy cynaliadwy.	Lefelau llygryddion aer yn y Parc Cenedlaethol - yn seiliedig ar Adolygiad ac Asesiadau Ansawdd Aer ar gyfer Gwynedd a Chonwy.	Darparu gwybodaeth gefndir amgylcheddol am y Parc Cenedlaethol.	Cynghorau Gwynedd a Chonwy	Pan fydd diweddariad o'r adolygiad ansawdd aer yn digwydd.
Gwarchod ansawdd priddoedd trwy leihau halogiad a gwarchod swyddogaeth y pridd	Hyrwyddir gwell rheolaeth ar briddoedd trwy Gynllun Eryri a bydd yn bwysig monitro a yw	Cyfanswm arwynebedd y mawndir lle mae camau adfer wedi'u cyflawni.	Sicrhau bod y priddoedd mwyaf gwerthfawr yn y Parc Cenedlaethol yn cael eu gwarchod a bod eu	APCE	Yn flynyddol

Amcan y GC	Effaith i'w Monitro	Dangosydd Monitro	Cyfiawnhad dros Ddefnyddio Dangosydd	Ffynhonnell Data	Amserlen Adolygu
	adnoddau pridd allweddol fel priddoedd mawndir yn cael eu rheoli'n briodol.	Nifer y prosiectau Cod Mawndir a gefnogir. Nifer y prosiectau Cod Carbon coed a choetir a gefnogir. Nifer y ceisiadau cynllunio sy'n cynnwys adfer y safle a'r ardal o dir sy'n cael ei adfer. Ardal o bridd mawn ac organig a gollwyd o ganlyniad i geisiadau cynllunio newydd. Ardaloedd o bridd mawndir sy'n cael ei reoli'n weithredol gan dirfeddiannwr.	rheolaeth yn cael ei wella lle bo hynny'n bosibl.		
Diogelu daeareg a geomorffoleg y Parc Cenedlaethol	Mae Canlyniadau / Deilliannau yng Nghynllun Eryri sy'n mynd i'r afael â diogelu geoamrywiaeth ac felly dylai'r effeithiau fod yn gadarnhaol. Fodd bynnag, dylid monitro effeithiau ar gyflwr safleoedd sydd â gwerth	Cyflwr RIGS yn y Parc Cenedlaethol. Nifer y RIGS a reolir yn unol â chynllun rheoli pwrpasol.	Monitro cyflwr RIGS a deall yn well beth sy'n effeithio ar eu cyflwr a hefyd deall pa mor effeithiol y cânt eu rheoli ar draws y Parc Cenedlaethol.	Grwpiau RIGS APCE	Bob pum mlynedd.

Amcan y GC	Effaith i'w Monitro	Dangosydd Monitro	Cyfiawnhad dros Ddefnyddio Dangosydd	Ffynhonnell Data	Amserlen Adolygu
	geoamrywiaeth, er y dylid nodi y bydd cyflwr safleoedd o'r fath yn cael ei effeithio gan fwy na dim ond y Cynllun.				
Amddiffyn a gwella bioamrywiaeth	Mae cyfres o Ganlyniadau / Deilliannau yng Nghynllun Eryri sy'n ceisio sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei gynnal a'i wella, tra bo cydnerthedd ecosystemau'n cynyddu, ac felly rhagwelir y bydd yr effeithiau'n gadarnhaol. Fodd bynnag, dylid casglu gwybodaeth mewn perthynas â chyflwr safleoedd i bennu effeithiolrwydd gweithrediad Cynllun Eryri. Fodd bynnag, nid yn unig Cynllun Eryri a fydd yn effeithio ar gyflwr a maint adnoddau bioamrywiaeth allweddol yn y Parc, ond	Cyflwr safleoedd dynodedig gan gynnwys AADd, ACA, Ramsar, SoDdGA, GNC. Cyflwr a statws rhywogaethau a chynefinoedd CGBLI. Nifer y rhaglenni rheoli rhywogaethau goresgynnol a weithredir ledled y Parc Cenedlaethol. Nifer y prosiectau adfer cynefinoedd a gychwynnwyd yn y Parc Cenedlaethol. Ardal o goetir brodorol ar draws y Parc	Monitro sut mae cyflwr cynefinoedd a rhywogaethau yn newid yn y Parc Cenedlaethol ac a yw'r Canlyniadau'n / Deilliannau'n cael eu cyflawni ac yn fuddiol i adnoddau bioamrywiaeth. Penderfynu a yw mentrau rheoli ac adfer cynefinoedd / rhywogaethau yn cael eu datblygu ar draws y Parc Cenedlaethol.	APCE CNC	Yn flynyddol

Amcan y GC	Effaith i'w Monitro	Dangosydd Monitro	Cyfiawnhad dros Ddefnyddio Dangosydd	Ffynhonnell Data	Amserlen Adolygu
	hefyd gweithredoedd cyrff eraill a bydd yn bwysig penderfynu pa mor effeithiol y mae Cynllun Eryri wedi bod wrth annog datblygiad mentrau bioamrywiaeth newydd ar draws y Parc Cenedlaethol a hefyd rheolaeth well o'r adnoddau hyn.	Cenedlaethol sy'n cael ei reoli'n weithredol. Nifer y rheolwyr tir sy'n ymwybodol o'r Canllawiau Cynllunio Atodol Bioamrywiaeth. Mapio gwres ardaloedd o ran Bregusrwydd Cynefinoedd i groesgyfeirio gydag effaith ymwelwyr.			
Gwerthfawrogi a gwarchod a gwella'r amgylchedd hanesyddol gan gynnwys treftadaeth adeiledig, archeoleg a thirwedd hanesyddol.	Mae yna nifer o Ganlyniadau / Deilliannau yng Nghynllun Eryri sy'n ceisio amddiffyn a gwella adnoddau treftadaeth ddiwylliannol ac felly rhagwelir y bydd yr effeithiau'n gadarnhaol. Mae ffocws hefyd ar godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo mentrau newydd sy'n gysylltiedig â threftadaeth ddiwylliannol. Bydd yn bwysig monitro	Cyflwr yr Ardaloedd Cadwraeth ac i ba raddau y mae datblygiad newydd yn gyson â'r Cynlluniau Rheoli Ardaloedd Cadwraeth. Cyflwr Henebion Rhestredig. Nifer yr Adeiladau Rhestredig sydd mewn perygl.	Penderfynu sut mae cyflwr adnoddau treftadaeth yn newid dros amser ac a yw ymwybyddiaeth yn cynyddu.	APCE Cadw Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd	Yn flynyddol, er mai dim ond ar ôl i'r cynlluniau rheoli gael eu datblygu a bod asesiadau cyflwr wedi'u cwblhau y bydd yn bosibl monitro'r effeithiau ar gyflwr Ardaloedd Cadwraeth.

Amcan y GC	Effaith i'w Monitro	Dangosydd Monitro	Cyfiawnhad dros Ddefnyddio Dangosydd	Ffynhonnell Data	Amserlen Adolygu
	Ilwyddiant gweithredu'r polisïau hyn ac a yw gwelliannau'n digwydd.	Nifer y digwyddiadau cymunedol y flwyddyn yn ymwneud â threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol. Nifer y cyrsiau amgylchedd hanesyddol sy'n cael eu cynnal yn y Parc Cenedlaethol.			
Gwerthfawrogi a gwarchod amrywiaeth a hynodrwydd lleol gan gynnwys cymeriad treflun.	Mae Canlyniad / Deilliant penodol yng Nghynllun Eryri sy'n mynd i'r afael â diogelu a gwella amrywiaeth a hynodrwydd lleol. Bydd yn bwysig monitro a yw amrywiaeth a hynodrwydd yn cael ei warchod ac a yw'r ffocws ar ddylunio cynaliadwy yng NghRhPC yn dylanwadu'n gadarnhaol ar y treflun a hefyd agweddau trigolion y Parc Cenedlaethol tuag ato.	Cyflwr yr ardaloedd Cadwraeth ac i ba raddau y mae datblygiad newydd yn gyson â'r Cynlluniau Rheoli Ardaloedd Cadwraeth. Nifer y datblygiadau newydd gyda datganiadau dylunio fel canran o gyfanswm y ceisiadau cynllunio. Nifer y datblygiadau a gafodd ganiatâd cynllunio sy'n cyflawni dyfarniadau dylunio	Sicrhau bod datblygiad newydd yn ategu ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at y treflun. Deallir a dathlir ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad o'r Rhinwedd Arbennig hwn o'r Parc Cenedlaethol.	APCE Cadw Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd	Yn flynyddol, er mai dim ond ar ôl cwblhau asesiadau cyflwr y bydd yn bosibl monitro'r effeithiau.

Amcan y GC	Effaith i'w Monitro	Dangosydd Monitro	Cyfiawnhad dros Ddefnyddio Dangosydd	Ffynhonnell Data	Amserlen Adolygu
		gwyrdd fel canran o gyfanswm y ceisiadau cynllunio a roddir bob blwyddyn. Nifer o drigolion y Parc Cenedlaethol sy'n falch o'u trefi cartref a'u hamgylchedd (byddai angen arolwg newydd i fonitro hyn).			
Gwarchod, hyrwyddo a gwella treftadaeth ddiwylliannol Eryri a'r iaith Gymraeg	Mae ffocws clir yng Nghynllun Eryri ar amddiffyn a gwella hunaniaeth ieithyddol y Parc Cenedlaethol a dathlu treftadaeth y Parc. Bydd yn bwysig penderfynu a yw mentrau o'r fath yn cael eu datblygu ac a oes effaith ar gyffredinrwydd siarad Cymraeg ar draws y Parc.	Canran y siaradwyr Cymraeg yn y Parc Cenedlaethol a'u dosbarthiad. Nifer y mentrau Cymreig a gyflwynir bob blwyddyn ar draws y Parc Cenedlaethol.	Penderfynu a yw dosbarthiad y siaradwyr Cymraeg yn y Parc Cenedlaethol yn newid.	APCE a'r Cyfrifiad.	Bob pum mlynedd
Diogelu ansawdd a maint yr adnoddau dŵr.	Cynllun Eryri mynd i'r afael â'r angen i ddiogelu a gwella ansawdd dŵr a bydd yn bwysig i fonitro a yw ansawdd y dŵr yn	Canran o afonydd Eryri sy'n cael eu dosbarthu fel Da lawn, Da neu Gweddol Dda o ran	Er mwyn penderfynu a yw ansawdd dŵr yn cael ei warchod, cynigir y bydd ffocws i ddechrau ar y cyrsiau dŵr hynny sydd	Asiantaeth yr Amgylchedd	Bob pum mlynedd

Amcan y GC	Effaith i'w Monitro	Dangosydd Monitro	Cyfiawnhad dros Ddefnyddio Dangosydd	Ffynhonnell Data	Amserlen Adolygu
	gwella ar draws y Parc Cenedlaethol, er bod ffactorau lluosog yn dylanwadu ar ansawdd dŵr ac nid dim ond y camau gweithredu y Cynllun Eryri. Dylid monitro effeithiolrwydd Cynllun Eryri tra'n hyrwyddo patrymau defnyddio dŵr yn fwy cynaliadwy hefyd.	ansawdd cemegol a biolegol. Traethau Gwobr Baner Las ac Arfordir Gwyrdd yn Eryri. Ansawdd dŵr ymdrochi ac aberoedd. Nifer y datblygiadau newydd sy'n ymgorffori dyfeisiau arbed dŵr.	wedi'u dynodi ar gyfer safleoedd sydd wedi'u dynodi at ddibenion cadwraeth natur neu'n bwydo i mewn iddynt. Fodd bynnag, gallai ansawdd cyrsiau dŵr newid o ganlyniad i sawl ffactor, h.y. pethau y tu hwnt i reolaeth Cynllun Eryri ac felly bydd angen trafod yr achosion dros unrhyw newidiadau gydag Asiantaeth yr Amgylchedd.		
Hyrwyddo mecanweithiau ar gyfer lleihau gwastraff, mwy o ailddefnyddio ac ailgylchu.	Dylid monitro effaith y Cynllun Eryri ar annog arferion rheoli gwastraff mwy cynaliadwy.	Nifer y mentrau rheoli gwastraff ac ailgylchu a sefydlwyd ledled y Parc Cenedlaethol.	Monitro lefelau sbwriel ac ailgylchu yn y Parc Cenedlaethol.	APCE	Bob pum mlynedd
Hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o'r Parc Cenedlaethol gan y cyhoedd	Effaith Cynllun Eryri ar godi ymwybyddiaeth o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol ymhlith preswylwyr ac ymwelwyr a nifer y mentrau / gweithredoedd	Nifer y cyfleoedd dysgu newydd yn y Parc sy'n gysylltiedig â'r Rhinweddau Arbennig. Nifer y gwefannau newydd a gwelliannau	Penderfynu a oes gwell dealltwriaeth o Rinweddau Arbennig y Parc dros amser.	APCE	Bob pum mlynedd

Amcan y GC	Effaith i'w Monitro	Dangosydd Monitro	Cyfiawnhad dros Ddefnyddio Dangosydd	Ffynhonnell Data	Amserlen Adolygu
	newydd a weithredwyd sy'n canolbwyntio ar Rinweddau Arbennig y Parc. Bydd hefyd yn bwysig monitro a yw cyfleoedd o'r fath yn cael eu darparu ar gyfer pob sector o'r gymdeithas.	i'r wefan bresennol o ran Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol. Nifer yr ymholiadau gan ymwelwyr yng Nghanolfannau Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol. Nifer yr ymwelwyr â'r Carneddau / Glyderau, Cadair Idris a'r Wyddfa. Nifer y byrddau gwybodaeth newydd yn y Parc Cenedlaethol bob blwyddyn a'r pynciau maen nhw'n mynd i'r afael â nhw. Nifer y cyfleusterau hamdden newydd o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n hygyrch i bawb e.e. y rhai â nam ar eu golwg,			

Amcan y GC	Effaith i'w Monitro	Dangosydd Monitro	Cyfiawnhad dros Ddefnyddio Dangosydd	Ffynhonnell Data	Amserlen Adolygu
		y rhai sy'n defnyddio cadeiriau olwyn.			
Hyrwyddo dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd a gweithredoedd cymunedol unigol i liniaru'r effeithiau ac addasu.	Penderfynu a yw'r Canlyniadau / Deilliannau yn Eryri yn cynyddu ymwybyddiaeth o newid yn yr hinsawdd ac yn hyrwyddo mesurau addasu unigol.	Nifer y bobl sy'n mynychu cyrsiau ym Mhlas Tan y Bwlch (a'r mathau o gyrsiau sy'n cael eu mynychu). Canran y preswylwyr yn y Parc Cenedlaethol sy'n teithio i'r gwaith ar drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio. Rhaglen waith Swyddog Bioamrywiaeth.	Er mwyn deall a yw ymwybyddiaeth o newid yn yr hinsawdd yn cynyddu ac a yw unigolion yn addasu eu hymddygiad i liniaru yn erbyn newid o'r fath.	APCE	Bob pum mlynedd.
Hyrwyddo dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a mwynhad o'r iaith a'r dreftadaeth ddiwylliannol yn ei ystyr ehangaf.	Er mwyn penderfynu a yw'r Canlyniadau yng Nghynllun Eryri yn cael eu gweithredu'n effeithiol ac yn codi ymwybyddiaeth o dreftadaeth ddiwylliannol ar draws y Parc.	Nifer y bobl sy'n mynychu cyrsiau ym Mhlas Tan y Bwlch. Nifer yr arddangosfeydd / mentrau ieithyddol a diwylliannol sy'n seiliedig ar dreftadaeth a drefnir bob blwyddyn yn y Parc Cenedlaethol. Nifer yr ymwelwyr mewn safleoedd	Er mwyn deall a yw mesurau gweithredol yn cael eu cymryd yn y Parc Cenedlaethol i hyrwyddo dealltwriaeth o faterion ieithyddol a diwylliannol.	APCE	Bob pum mlynedd.

Amcan y GC	Effaith i'w Monitro	Dangosydd Monitro	Cyfiawnhad dros Ddefnyddio Dangosydd	Ffynhonnell Data	Amserlen Adolygu
		diwylliannol allweddol e.e. Yr Ysgwrn			
Hyrwyddo a hwyluso gwell cyfranogiad cymunedol	Er mwyn penderfynu a yw ysbryd a chydlyniant cymunedol yn gwella ar draws y Parc Cenedlaethol ac a oes gwell mynediad at gyfleusterau cymunedol.	Canran y bobl ym mhob Cyngor Cymuned sy'n fodlon â'r Parc Cenedlaethol fel lle i fyw. Nifer y mentrau cymunedol lleol, e.e. ffeiriau, gwerthiannau crefft y flwyddyn. Ymatebion i ymgynghoriadau cyhoeddus a gyhoeddwyd gan y Parc Cenedlaethol. Rhaglen waith y swyddog lles a gwirfoddoli.	I fonitro llwyddiant cyfunol Cynllun Eryri wrth sicrhau ysbryd a chydlyniant mwy cymunedol. Fodd bynnag, mae hyn yn rhywbeth a all fod yn anodd iawn ei fonitro a gallai ystod eang o ffactorau effeithio arno.	APCE Cyngorau Cymunedol	Yn flynyddol
Hyrwyddo cysylltiadau trafndiaeth da i gefnogi'r economi leol.	Penderfynu a yw'r Canlyniadau / Deilliannau yng Nghynllun Eryri yn helpu i leihau teithio mewn car preifat a hefyd a yw gwell seilwaith TGCh	Y pellter cyfartalog a deithiwyd i'r gwaith. Canran o boblogaeth y Parc Cenedlaethol sy'n gweithio gartref.	Bydd y dangosyddion hyn yn helpu i benderfynu a yw cysylltiadau yn y Parc Cenedlaethol yn cael eu gwella a sut maent yn effeithio ar batrymau teithio a gweithio.	APCE Cyngorau Cymunedol Darparwyr gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus	Yn flynyddol a phob pum mlynedd am y pellter cyfartalog a deithiwyd i'r gwaith.

Amcan y GC	Effaith i'w Monitro	Dangosydd Monitro	Cyfiawnhad dros Ddefnyddio Dangosydd	Ffynhonnell Data	Amserlen Adolygu
	yn arwain at fwy o weithio gartref. Bydd hefyd yn bwysig monitro a yw gwelliannau'n cael eu gwneud i rwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus y Parc Cenedlaethol.	Nifer y cynlluniau / gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus newydd a weithredir bob blwyddyn yn y Parc Cenedlaethol a dosbarthiad gofodol y gwelliannau hyn. Canran o boblogaeth y Parc Cenedlaethol sy'n teithio i'r gwaith gan ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded neu feicio.		Data cyfrifiad	
I gynorthwyo â'r cyfleoedd cyflogaeth lleol a busnesau sy'n gysylltiedig â phwrrpasau'r Parc Cenedlaethol.	Gallai Cynllun Eryri annog cyfleoedd ar gyfer creu swyddi, mentrau newydd a chyfleoedd busnes trwy ei Ganlyniadau a dylai datblygiad cyfleoedd o'r fath gael eu monitro.	Cyfraddau gweithgaredd economaidd yn y Parc Cenedlaethol. Nifer y datblygiadau cyflogaeth newydd gyda data wedi'i gasglu am leoliad a'r math o gyflogaeth. Nifer y busnesau newydd y flwyddyn yn y	Penderfynu a yw busnesau newydd yn cael eu creu ac a ydynt yn gysylltiedig â phwrrpasau'r Parc Cenedlaethol.	APCE Gwasanaeth Llygad Busnes Data cyfrifiad	Yn flynyddol.

Amcan y GC	Effaith i'w Monitro	Dangosydd Monitro	Cyfiawnhad dros Ddefnyddio Dangosydd	Ffynhonnell Data	Amserlen Adolygu
		Parc Cenedlaethol sy'n gysylltiedig â 'thechnolegau gwyrdd'. Nifer y busnesau newydd sy'n dechrau o'r newydd yn y Parc Cenedlaethol.			
I wella'r sylfaen sgiliau leol. I ddarparu cyfleoedd dysgu.	Mae ffocws yng Nghynllun Eryri ar godi ymwybyddiaeth a darparu mwy o gyfleoedd i drigolion ac ymwelwyr i gael y cyfle i ddysgu mwy am y Parc Cenedlaethol a chodi eu lefelau sgiliau yn y broses. Bydd yn bwysig monitro a yw cyfleoedd o'r fath yn cael eu darparu ac a ydynt yn effeithio ar lefelau sgiliau. Felly, cynigir y dylid monitro'r ddau Amcan GC hyn ochr yn ochr.	Nifer y bobl sy'n mynychu cyrsiau ym Mhlas Tan y Bwlch (a'r mathau o gyrsiau sy'n cael eu mynychu). Nifer y trefnydd arddangosfeydd / mentrau ieithyddol a diwylliannol sy'n seiliedig ar dreftadaeth y flwyddyn yn y Parc Cenedlaethol. Nifer y cyfleoedd dysgu newydd ar y we sy'n gysylltiedig â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol.	Byddai'r dangosyddion hyn yn helpu i benderfynu a yw cyfleoedd dysgu newydd yn cael eu darparu. Bydd yn anoddach monitro mesur yr effaith ar lefelau sgiliau lleol.	APCE	Yn flynyddol

Amcan y GC	Effaith i'w Monitro	Dangosydd Monitro	Cyfiawnhad dros Ddefnyddio Dangosydd	Ffynhonnell Data	Amserlen Adolygu
		Rhaglen waith y swyddog lles a gwirfoddoli.			

8.5 Rheolaeth a Chyfrifoldebau

Bydd y data monitro yn cael ei goladu mewn dull strwythuredig fel y gellir nodi patrymau a thueddiadau a gweithredu camau adfer. Gellid casglu data mewn fformat tabl a chofnodi'r hyn a ganlyn:

- Amcan y GC.
- Y dangosydd sy'n cael ei ddefnyddio.
- Y data a gofnodwyd.
- Y duedd, h.y., yw'r sefyllfa'n gwella neu'n dirywio.
- Yr angen am gamau adferol.
- Y camau adferol i'w cymryd.
- Y dyddiad ar gyfer gweithredu camau adfer.

Fodd bynnag, rhagwelir ar hyn o bryd na fydd angen cymryd camau adfer gan nad oes disgwyl unrhyw effeithiau andwyol sylweddol o ganlyniad i Ganlyniadau / Deilliannau Cynllun Eryri.

Efallai y bydd y broses fonitro yn nodi nad yw rhai o'r Canlyniadau yn cael eu gweithredu mor effeithiol ag y gallent fod a dylai hyn sbarduno'r adolygiad o'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig i sicrhau bod ymdrechion yn cael eu targedu yn unol â hynny yn y blynyddoedd i ddod.

9. Y Camau Nesaf

Mae Tabl 12 yn crynhoi'r camau nesaf wrth gynhyrchu Cynllun Eryri a'r broses GC.

Tabl 12 Camau Nesaf yn y Broses GC

Cam yn y Broses	Dyddiad Targed
Ymgynghoriad ar Adroddiad Terfynol y GC a Chynllun Eryri.	3 Chwefror - 13 Mawrth 2020
Coladu sylwadau ac addasiadau i Gynllun Eryri.	Mawrth / Ebrill 2020
Cyhoeddi Cynllun Eryri ar ei ffurf derfynol.	Mai 2020